



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

# Rhan 1: Gwella Llywodraeth Leol

## Diwygio Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella

Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009



# Crynodeb o'r Cynnwys

<b>Pennod 1</b>	<b>Integreiddio Strategaeth a Chyflenwi</b>	2
	Cysylltu'r Cysyniadau	2
	Cysylltu'n Ymarferol	3
<b>Pennod 2</b>	<b>Egwyddorion, Cwmpas a Statws</b>	6
	Egwyddorion Sylfaenol	6
	Cwmpas a Statws	8
<b>Pennod 3</b>	<b>Gwella</b>	9
	Diffinio Gwella	9
	Y Ddyletswydd Gyffredinol i Wella	9
	Amcanion Gwella	10
	Pennu Amcanion Gwella	12
	Llunio Amcanion Gwella	13
	Ymgynghori ynglŷn â Gwella	15
	Cofnodi ac Adrodd ar Gynnydd	16
	Rôl Craffu	17
<b>Pennod 4</b>	<b>Gwybodaeth am Welliannau</b>	18
	Dangosyddion Perfformiad Statudol	19
	Dangosyddion Perfformiad Safonol	19
	Dangosyddion Lleol	21
	Gwybodaeth Ychwanegol am Wella	22
<b>Pennod 5</b>	<b>Cydweithio</b>	23
	Cydlafurio i Wella	23
	Ymgynghori ac Adrodd	24
<b>Pennod 6</b>	<b>Rhoi Cyfrif am Wella</b>	26
	Cynlluniau a Bwriadau	26
	Adrodd ar Berfformiad yn y Gorffennol	27
	Cyhoeddi	28
	Ymgysylltu Ehangach â'r Cyhoedd	29
	Hyblygrwydd	30
<b>Pennod 7</b>	<b>Asesu, Rheoleiddio ac Arolygu</b>	31
	Amlinelliad o Waith Swyddfa Archwilio Cymru a Rheoleiddwyr Perthnasol	32
	Asesu Gwella	33
	Asesu Corfforaethol sy'n Edrych tua'r Dyfodol	34
	Asesu Perfformiad Adolygol	34
	Arolygiadau Arbennig	35
	Adroddiadau Gwella Blynnyddol a Gyhoeddir	36
	Cydgysylltu Gwaith Asesu a Rheoleiddio	36

# Pennod 1

## Integreiddio Strategaeth a Chyflenwi

- 1.1 Mae'r ddogfen hon yn un o dair, ynghyd â canllawiau tebyg ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub a Chanllawiau ar **Strategaethau Cymunedol a Chynllunio**. Gyda'i gilydd, maent yn amlinellu beth fyddai'r ffordd orau i awdurdodau lleol, awdurdodau tân ac achub a'u partneriaid weithredu darpariaethau Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae'r Mesur yn cynnwys dwy ran annibynnol - Rhan 1, sy'n ymdrin ag awdurdodau lleol ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn gwella ac yn cynllunio busnes, a Rhan 2, sy'n ymdrin â chynllunio cymunedol strategol gan awdurdodau lleol ac ystod o bartneriaid sector cyhoeddus.
- 1.2 Rydym wedi gwahanu'r canllawiau hyn yn ddwy ddogfen gan fod y cynulleidfaoedd ar gyfer bob un yn wahanol. Ond mae cysylltiad agos rhwng y ddwy, ac mae'n gwbl hanfodol deall sut a pham y mae hynny'n wir os yw'r system newydd i weithio'n effeithiol ar lefelau lleol a chenedlaethol.

### Cysylltu'r Cysyniadau

- 1.3 Mae dau gysyniad neu egwyddor rheolaeth gyhoeddus sylfaenol dan sylw yma:
- Mae a wnelo **gwella** â'r tymor byr. Proses yw lle bo sefydliadau (yn yr achos hwn, awdurdodau lleol ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol) yn pennu beth yw eu blaenoriaethau, ac yn cynllunio, yn monitro, yn rheoli ac yn adrodd ar eu gweithgareddau'n flynyddol er mwyn eu cyflawni. Cyn i'r Mesur ddod yn gyfraith, roedd y broses hon yn cael ei rheoleiddio, i lywodraeth leol, gan Ran 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 - y drefn 'gwerth gorau' fel y'i gelwir.
  - Mae **cynllunio cymunedol** yn rhywbeth sy'n digwydd dros gyfnod llawer hirach. O dan y broses hon, bydd awdurdodau lleol a'u partneriaid yn sefydlu gweledigaeth strategol 10-15 mlynedd ar gyfer gwella lles dinasyddion a chymunedau lleol. Mae'n delio o raid â phroblemau a blaenoriaethau sy'n ymestyn dros gyfnod llawer hirach a rhai mwy cymhleth ac anhydrin yn aml na'r prosesau gwella a ddisgrifir uchod. Cyn i'r Mesur ddod yn gyfraith, câi'r broses hon ei rheoleiddio gan Ran 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.
- 1.4 Er gwaetha'r gwahaniaethau amlwg rhwng gwella a chynllunio cymunedol, **nid yw'r un ohonynt yn gweithio'n iawn heb gysylltiad â'i gilydd**. Buan iawn y bydd gwella nad yw wedi ei wreiddio mewn gweledigaeth strategol fwy hirdymor, ac nad yw'n ceisio gwireddu'r weledigaeth honno, yn datblygu i fod yn ymarfer seithug mewn ceisio cyflawni targedau perfformiad er eu mwyn eu hunain, heb synnwyr digonol yn aml o'r hyn sy'n cyfrif fwyaf i bobl a chymunedau lleol. Ar y llaw arall, gall cynllunio cymunedol nad yw'n creu newidiadau manteisiol, mwy byr dymor gweladwy i ardaloedd lleol ddirywio i fod yn broses ddibwrpas

o lunio amcanion a dyheadau niwlog na chânt byth eu gwireddu'n iawn. Un o brif amcanion y Mesur, a'r canllawiau hyn, yw cywiro'r diffygion hyn trwy uno'r ddwy broses ynghyd yn fwy effeithiol.

- 1.5 Rydym yn credu bod sawl rheswm pam nad yw'r cysylltiadau hyn wedi bod yn ddigon cadarn hyd yma:
- Mae gormod o fwllch rhwng y cylch gwella blynyddol a'r amserlen cynllunio cymunedol 10-15 mlynedd. Caiff y blwch hwnnw ei lenwi i raddau gan gynlluniau statudol tymor-canolog, fel Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a Chynlluniau Plant a Phobl Ifanc. Ond nid yw'r rhain o reidrwydd ond yn ymdrin â rhai o amcanion awdurdodau lleol a'u partneriaid.
  - Mae'n bosibl bod gwella o dan Ddeddf 1999 wedi ymwneud yn ormodol â data perfformiad mesuradwy a diwygio prosesau busnes awdurdodau. Efallai bod y pwyslais yn ormodol ar wella perfformiad awdurdodau fel sefydliadau, yn hytrach na'r effaith gadarnhaol y gallant ei gael ar yr hyn sy'n cyfri ar lefel leol a thu hwnt.
  - I awdurdodau lleol, cafodd gwella a chynllunio cymunedol eu llywodraethu gan drefnau statudol a gofynion adrodd cwbl ar wahân. Mewn aml achos, mae hyn wedi arwain yn ddigon rhesymol atynt yn cael eu neilltuo i wahanol rannau o'u sefydliadau.
  - Nid yw cyrff cyhoeddus eraill yn ymwneud o raid nac yn barhaus â chynllunio cymunedol. Er bod llawer o enghreifftiau da o waith partneriaeth effeithiol i'w cael, mater i'r awdurdod lleol yn bennaf yw cynllunio cymunedol o hyd yn ôl y gyfraith, ac yn ymarferol hefyd yn aml. Mae'n iawn bod awdurdodau lleol yn darparu cydgysylltu ac arweiniad, yn unol â'u mandadau democrataidd. Ond ni allant gyflawni prin ddim dros gyfnod hirach heb fewnbwn llawn ac effeithiol gan eraill.

## Cysylltu'n Ymarferol


- 1.6 Mae'r ddwy ddogfen gyfarwyddyd yn disgrifio sut y gallwn geisio dileu neu leihau'r problemau hynny. Ond yn gyffredinol dylai gwella a chynllunio cymunedol hysbysu, a chael eu hysbysu, gan y naill a'r llall. Byddem yn disgwyl:
- I wella roi ystyriaeth lawn a phriodol i'r weledigaeth strategol fel y mae wedi ei hamlinellu yn y strategaeth gymunedol. Dyma'r ffrâm a ddylai gynnal llawer o flaenoriaethau gwella tymor byr. Er y bydd blaenoriaethau eraill tebyg nad ydynt yn ffitio yma, un ai am eu bod yn rhai rhy byr dymor neu eu bod wedi eu cyfyngu'n ormodol i un sefydliad, o leiaf ni ddylent wrthdaro â'r strategaeth gymunedol.
  - I gynllunio cymunedol fod wedi ei seilio ar ddealltwriaeth o'r hyn sy'n ymddangos y byddai'n rhesymol i awdurdod lleol ac/neu ei bartneriaid ei gyflawni, a hefyd ar fonitro'n gyson pa mor effeithiol yw'r cyflawni. Os a phan y daw yn eglur, ar sail gwybodaeth fwy tymor byr, na ellir cyflawni amcanion cynllunio cymunedol neu nad ydynt yn berthnasol bellach, yna dylai'r amcanion hynny newid.

1.7 A bod yn fwy manwl, ac fel y myn y Mesur, mae hyn yn golygu:

- Y dylai strategaeth gymunedol gynnwys cyfres o gamau gweithredu y mae awdurdodau lleol a'u partneriaid yn ymrwymo'n gyhoeddus i'w cyflawni yn y tymor byr i ganolig.
- Y dylai'r camau hynny fod wedi eu gwreiddio mewn dealltwriaeth gyflawn o flaenoriaethau dros gyfnod o 10-15 mlynedd ac i ba raddau y gall partneriaid lleol eu gwreiddio. Gallai hynny olygu dewisiadau anodd: mae pob corff cyhoeddus yn ddarostyngedig i gyfyngiadau cyfreithiol, polisi ac adnoddau ar eu rhyddid i weithredu.
- Y dylai awdurdodau lleol ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol ddatblygu amcanion gwella priodol yn unol â hynny. Mae'n amlwg y bydd y rhain yn cyfrannu at yr agwedd wella "effeithiolrwydd strategol", ond gallai agweddau eraill, yn arbennig tegwch a chynaliadwyedd, fod yn arbennig o berthnasol.
- Y dylai cyrff cyhoeddus eraill hefyd integreiddio camau cynllunio cymunedol yn eu prosesau cynllunio busnes, trwy lunio amcanion priodol, yn unol â'u gwahanol rolau a chyfrifoldebau cyfredol (a pharhaus).
- Y dylai cyflawni'r amcanion hynny hysbysu datblygiad parhaus cynllunio cymunedol. Dylai pob partner, yn unigol ac ar y cyd, ystyried cyflawni camau cynllunio cymunedol a'u perthnasedd, fel rhan o'r broses o fonitro gweithrediad. Os daw yn eglur bod un neu fwy o'r partneriaid yn methu cyflawni camau cynllunio cymunedol, neu fod y camau hynny neu'r amcanion y maent yn gysylltiedig â hwy bellach yn amherthnasol neu'n llai pwysig, dylai'r partneriaid ystyried eu diwygio.

1.8 Yn fras felly, mae'r system gyfan yn debyg i ffigur 1 (drosodd).

# Y Mesur Llywodraeth Leol



# Pennod 2

## Egwyddorion, Cwmpas a Statws

### Egwyddorion Sylfaenol

- 2.1 Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn datblygu ar sail y meddylfryd tu ôl i fersiwn 2005 o Raglen Cymru ar gyfer Gwella, ac wedi ei seilio ar ychydig o egwyddorion sylfaenol:
- mae “gwella” mewn gwirionedd yn golygu mwy na dim ond enillion mesuradwy yng nghynnyrch neu effeithlonrwydd gwasanaeth, neu yn effeithiolrwydd mewnol awdurdodau. Yn hytrach, dylai olygu unrhyw beth sy'n gwella ansawdd bywyd cynaliadwy dinasyddion a chymunedau lleol;
  - yn unol â hyn, dylai awdurdodau eu hunain bennu eu blaenoriaethau eu hunain ar gyfer gwella ar sail dealltwriaeth drwyadl o anghenion lleol a'u gallu i fynd i'r afael â hwy;
  - y dylai'r ddealltwriaeth hysbysu, a chael ei hysbysu gan, y weledigaeth hirdymor a rennir o ganlyniadau cymunedol a gynhowyd yn strategaeth gymunedol pob ardal fel mynegiant o ddyheadau arweiniad cymunedol yr awdurdod lleol;
  - dylai'r ymagweddau at gydweithredu, rheoli perfformiad, atebolrwydd, rheoleiddio ac arolygu, a chymorth ac ymyrraeth, gynnal yr egwyddorion uchod a bod yn gyson â hwy.
- 2.2 Mae'r Mesur yn cywiro'r cyfyngiadau sy'n gynhenid yn y sail statudol wreiddiol ar gyfer Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella drwy:
- Ehangu'r diffiniad o beth yw gwella. Erbyn hyn nid yw hyn wedi'i gyfyngu i ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, ond yn hytrach mae'n cynnwys y canlynol:
    - gwneud cynnydd tuag at amcanion strategol awdurdod (fel y maent wedi'u hamlinellu yn ei strategaeth gymunedol);
    - gwella ansawdd gwasanaethau;
    - gwella argaeledd gwasanaethau;
    - gwella tegwch trwy leihau anghydraddoldeb wrth gyrraedd at neu fanteisio ar wasanaethau, neu wella lles cymdeithasol dinasyddion a chymunedau;
    - ymarfer swyddogaethau mewn ffyrdd sy'n cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy;
    - gwneud gwasanaethau a swyddogaethau'n fwy effeithlon;
    - arloesi neu newid sy'n cyfrannu at unrhyw un o'r amcanion uchod.



- Caniatáu i awdurdodau bennu eu hamcanion gwella eu hunain o dan unrhyw rai (ond nid y cyfan o reidrwydd) o'r elfennau gwelliant uchod.
- Creu pŵer cyffredinol i awdurdodau gydlafurio er mwyn sicrhau gwelliant.
- Cyflwyno gofynion adrodd mwy amserol a hyblyg sy'n cyd-fynd yn well ag anghenion cynllunio busnes yr awdurdodau).
- Symleiddio'r dull o reoleiddio ac arolygu, a mynnu cael cydgysylltu rhwng cyrff rheoleiddio.
- Creu pŵer cyffredinol i Weinidogion Cymru allu cynnig cymorth gwirfoddol i awdurdodau, a mynnu eu bod yn defnyddio'r pŵer hwnnw yn achos awdurdod sydd mewn trafferthion cyn y gallant ystyried defnyddio eu pwerau ymyrraeth (heblaw mewn amgylchiadau eithriadol).

2.3 Mae Rhan 2 y Mesur yn diwygio'r gyfraith ar gynllunio cymunedol, yn benodol trwy fynnu bod partneriaid lleol (cyrff y GIG, Parciau Cenedlaethol, yr heddlu, awdurdodau tân a chynghorau cymuned) yn cydlafurio â'r awdurdod lleol i ddatblygu a gweithredu strategaeth gymunedol. Nid yw'n pennu strwythurau neu ffyrdd arbennig o weithio: mater i bartneriaid lleol gytuno arno fydd hynny.

2.4 Mae canllawiau statudol ar Ran 2 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 Strategaethau Cymunedol a Chynllunio yn cwmpasu rolau awdurdodau lleol a'u partneriaid cynllunio cymunedol mewn datblygu a gwireddu gweledigaeth fwy hirdymor ar gyfer ardal a'i chymunedau. Un o brif amcanion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yw cysylltu'r strategaeth gymunedol, ac yn bwysicach, y prosesau parhaus sy'n sail iddi, â'r drefn gwella llywodraeth leol. Os oes gan yr awdurdodau lleol a'u partneriaid cynllunio cymunedol drefniadau cynllunio cymunedol da ar waith, gan gynnwys ymgysylltu cryf â chymunedau a rhanddeiliaid a ffocws clir ar sicrhau gwell canlyniadau, yna dylai'r dasg o osod amcanion gwella lifo'n rhwydd o hyn a dylai'r amcanion gwella eu hunain fod yn fwy perthnasol a realistig.

2.5 Os yw awdurdod yn sefydlu, neu'n para i fwynhau cysylltiad da, cadarn, parhaus ac amlwg gyda chymunedau a rhanddeiliaid, gallai hyn leihau'r angen am ymarferion ymgynghori ffurfiol, eang a mynych. Yn fyr, amlaf yn y byd y mae'r awdurdod yn ymgysylltu â'i gymunedau a'i rhanddeiliaid, yna mwyaf tebygol yw hi y byddai awdurdod yn gosod amcanion gwella priodol. Prun bynnag, bydd angen i awdurdodau allu dangos eu bod wedi rhoi'r cyfle i breswylwyr a phartion eraill â diddordeb fynegi eu syniadau a'u bod wedi eu hystyried. Dylai awdurdodau lleol gadw tystiolaeth i ddangos bod pobl wedi cael y cyfle i roi eu sylwadau ar amcanion gwella arfaethedig a chynlluniau ar gyfer cyflawni'r amcanion hynny.

## Cwmpas a Statws

- 2.6 Mae Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn gymwys ym mhob peth i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistrefi sirol yng Nghymru, awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub, sydd i gyd wedi eu dynodi nawr yn awdurdodau gwella Cymreig. Nid oes gan y dynodiad o 'awdurdodau gwerth gorau' unrhyw ystyr gyfreithiol bellach mewn cysylltiad â'r cyrff hyn, na'r cysyniad ehangach o 'werth gorau' chwaith.
- 2.7 Nid yw awdurdodau heddlu yng Nghymru'n ddarostyngedig i Ran 1 y Mesur nac i bwerau deddfu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar wella gwasanaethau. Maent yn dal yn awdurdodau gwerth gorau o dan reolaeth Deddf Llywodraeth Leol 1999, a chanllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU o dan y ddeddf honno.
- 2.8 Mae'r canllawiau hyn yn gymwys i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, ac i awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Er hynny, rydym yn cydnabod bod gan awdurdodau Parciau Cenedlaethol ystod lai o swyddogaethau nag awdurdodau lleol, a threfniadau llywodraethu ac atebolrwydd gwahanol, a dylent ddehongli'r canllawiau hyn yn unol â'r gwahaniaethau hynny. Mae peth o'r canllawiau hyn, er enghraifft, yn cyfeirio at graffu a phwyllgorau craffu, mae'n amlwg nad yw'n berthnasol i awdurdodau Parciau Cenedlaethol a dylid ymdrin ag ef felly.
- 2.9 Nid yw'r canllawiau hyn yn gymwys i awdurdodau tân ac achub. Bu canllawiau Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella ar wahân ar gyfer awdurdodau tân ac achub oddi ar 2006 ac felly y bydd pethau o hyd; byddwn felly'n cyhoeddi canllawiau o dan y Mesur ar gyfer awdurdodau tân ac achub ar wahân.
- 2.10 Er hwylustod, yn y canllawiau hyn ystyr y termau "awdurdod" ac "awdurdodau" yw unrhyw un neu'r cyfan o'r cyrff y mae'r canllawiau yn gymwys iddynt (cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol), oni bai fod y testun yn nodi fel arall. Ystyr "awdurdod lleol" yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol (yn unig).
- 2.11 Mae'r rhan fwyaf o'r canllawiau hyn yn statudol o dan adrannau 6, 14(3) a 15(8)-(9) y Mesur; felly rhaid i'r awdurdodau y mae'n berthnasol iddynt eu hystyried. Nid oes unrhyw rym statudol i rai o'r canllawiau a chynghori yn unig y maent. Nodir rhannau o'r fath yn y testun.

# Pennod 3

## Gwella

### Diffinio Gwella

- 3.1 Mae awdurdodau'n gwasanaethu dinasyddion a chymunedau mewn llawer o wahanol ffordd: trwy gynnig arweiniad a chynrychiolaeth ddemocrataidd, creu a chynnal ymdeimlad o le a balchder dinesig, a thrwy gomisiynu a chydgysylltu gwaith asiantaethau eraill - yn ogystal â darparu gwasanaethau eu hunain. Dylent amcanu i wneud hynny mewn ffordd sy'n gwella ac yn diogelu ansawdd bywyd cynaliadwy dinasyddion ac sy'n gwella lles ardal.
- 3.2 Mae 'gwella' yng nghyd-destun mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella yn golygu mwy na dim ond enillion y gellir eu mesur mewn allbwn neu effeithlonrwydd gwasanaeth, neu pa mor effeithiol yw sefydliad yn fewnol. Yn hytrach dylai olygu unrhyw beth sy'n gwella ansawdd cynaliadwy bywyd a'r amgylchedd i ddinasyddion a chymunedau lleol.

### Y Ddyletswydd Gyffredinol i Wella

- 3.3 O dan adran 2 o'r Mesur, mae dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau i "wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer [eu] swyddogaethau." Dewiswyd y geiriad hwn yn fwriadol ac yn ofalus, ac mae dwy agwedd arno'n haeddu sylw pellach.
  - Yn gyntaf, mae'r ddyletswydd yn cynnwys 'gwneud trefniadau' i wella: nid oes unrhyw ddyletswydd absoliwt i wella, ac ni allai hynny fod ychwaith. Mae cyflenwi gwasanaethau o ansawdd uchel a mynd i'r afael ag anghenion cymunedol niferus yn fater cymhleth ac anodd yn aml, ac ni all unrhyw sefydliad, waeth pa mor gymwys neu fwriad dda, warantu y bydd ei ymdrechion yn llwyddiannus. Felly byddai dyletswydd absoliwt i wella un ai'n gwahodd methiant neu osod amcanion anuchelgeisiol a llai perthnasol. Ond nid yw hynny'n golygu mai'r cyfan sydd angen i awdurdodau ei wneud yw dylunio nifer o brosesau a'i gadael ar hynny. Yn hytrach, dylai awdurdodau roi trefniadau ar waith sy'n caniatáu iddynt ddeall anghenion a blaenoriaethau lleol yn effeithiol, a gwneud y defnydd gorau o'u hadnoddau a'u gallu i'w bodloni ac i asesu'r effaith ar eu gweithredoedd.
  - Yn ail, cyfeiria'r ddyletswydd at 'welliant parhaus'. Gan y bydd union ystyr lleol 'gwella' yn amrywio rhwng awdurdodau a thros amser, nid yw hyn yn golygu bod angen i bopeth barhau i wella mewn termau mesuradwy. Yn hytrach, dylai awdurdodau geisio sicrhau yn barhaus bod eu hamcanion gwella yn parhau'n berthnasol, bod y trefniadau gorau ar waith i'w cyflenwi a'u bod yn gallu deall a dangos yr effaith ar y canlyniadau i ddinasyddion.

- 3.4 Wrth gyflawni ei ddyletswydd, rhaid i awdurdod ystyried yn arbennig yr angen i wella'r modd y mae yn ymarfer ei swyddogaethau o ran:
- (a) Gwneud cynnydd tuag at amcanion strategol awdurdod (fel y maent wedi eu nodi yn ei strategaeth gymunedol) yn arbennig yn nhermau:
    - (i) Lles cymdeithasol yr ardal;
    - (ii) Lles economaidd yr ardal;
    - (iii) Lles amgylcheddol yr ardal;
    - (iv) Amcanion hirdymor yr ardal yn cyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy yn y Deyrnas Unedig.
  - (b) Gwella ansawdd gwasanaethau;
  - (c) Gwella argaeledd gwasanaethau;
  - (d) Tegwch yn arbennig wrth leihau anghydraddoldeb wrth gael gafael ar wasanaethau neu gael budd ohonynt, neu wella lles dinasyddion a chymunedau;
  - (e) Ymarfer swyddogaethau mewn dulliau sy'n cyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy ardal<sup>1</sup>;
  - (f) Gwella effeithlonrwydd gwasanaethau a swyddogaethau;
  - (g) Arloesi a newid sy'n cyfrannu at unrhyw un o'r amcanion uchod.
- 3.5 Diffinnir pob un o'r termau hyn yn adran 4 y Mesur ac nid bwriad y canllawiau hyn yw newid neu ychwanegu at y diffiniadau hynny. Yr hyn sy'n dilyn yw canllawiau ar sut i'w cymhwyso'n ymarferol.
- 3.6 Mae'r cyntaf o'r rhain, **effeithiolrwydd strategol**, yn allweddol i gysylltu'r strategaeth gymunedol, a'r prosesau rheolaidd sy'n sail iddi, â phrosesau gwella awdurdod. Mae'n dilyn y dylai'r canlyniadau a'r amcanion cynllunio cymunedol hynny y mae awdurdod yn cyfrannu atynt fod yn ganolog i weithgaredd gwella'r awdurdod hwnnw. Wrth wneud hynny dylai awdurdodau allu datblygu naratif glir o gylch eu cynlluniau ar gyfer gwella fydd yn canu cloch gyda'r dinasyddion a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.
- 3.7 Mae'r tri nesaf, **ansawdd gwasanaethau**, **argaeledd gwasanaethau** a **thegwch** i gyd yn ymwneud â darparu gwasanaeth, trwy geisio bodloni anghenion dinasyddion, a sicrhau rhwyddineb mynediad teg at y gwasanaethau mwyaf addas sy'n bodloni eu hanghenion. Yn amlwg, gellir arddangos yr amcanion hyn yn unigol, neu gyda'i gilydd. Gellir hefyd ddangos tegwch drwy arfer swyddogaethau nad ydynt yn ymwneud â gwasanaeth mewn ffyrdd sy'n lleihau anfantais ac yn gwella lles cymdeithasol, er enghraifft drwy wella mynediad dinasyddion i wybodaeth.

---

<sup>1</sup> Gweler adrannau 4.19 - 4.22 o'r Canllawiau ar Strategaethau Cymunedol a Chynllunio

- 3.8 Wrth arfer ei swyddogaethau neu ddarparu gwasanaethau, gall awdurdod gwella arddangos gwelliant pan fo'n gweithredu mewn modd sy'n cyfrannu at gynaliadwyedd ei ardal. Yn yr un modd, gellir dangos effeithlonrwydd cyson os defnyddir llai o adnoddau wrth barhau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd tebyg neu well. Os byddai awdurdod yn dewis newid y modd y darperir gwasanaeth, ac yn defnyddio llai o adnoddau neu wasanaethau mwy integredig wrth wneud hynny, nid yn unig bydd yn arddangos effeithlonrwydd, ond gallai arddangos gwell cynaliadwyedd hefyd.
- 3.9 Mae'r agwedd arloesi ychydig yn wahanol. Mae'n cynnwys unrhyw newidiadau i ddulliau dylunio a chyflenwi gwasanaeth y bwriedir iddynt greu gwelliant o dan unrhyw agwedd arall, ac sy'n weddol debygol o wneud hynny. Mae hyn yn caniatáu i awdurdodau wneud newidiadau na fyddent yn cael effeithiau gwirioneddol o bosibl o fewn yr un flwyddyn adrodd, ond sy'n debygol o gael effaith mewn blynyddoedd dilynol, gan ddal i'w cyfri'n welliannau.
- 3.10 Ac felly er mwyn i awdurdod gyflawni ei ddyletswydd gyffredinol yn llwyddiannus, mae'n dilyn y dylai ymgorffori'r saith agwedd ar wella yn ei holl brosesau gwneud penderfyniadau a'i asesiadau o swyddogaethau a gwasanaethau. Byddai hyn hefyd yn ymestyn i swyddogaethau craffu awdurdod<sup>2</sup>.

## Amcanion Gwella

- 3.11 Dylai ystyriaethau awdurdod ynglŷn â'r ddyletswydd gyffredinol i wella ei arwain i ystyried
- (i) Gosod amcanion gwella ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod (neu ailgadarnhau neu ddiwygio amcanion y blynyddoedd blaenorol sydd wedi cwmpasu mwy nag un flwyddyn adrodd);
  - (ii) Pa mor gymwys yw'r sefydliad i'w cyflawni (cymhwyster y sefydliad i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol a chyflenwi amcanion gwella cysylltiedig).
- 3.12 Wrth benderfynu ar yr amcanion gwella y bydd yn ymgynghori arnynt dylai awdurdod ystyried y camau hynny fyddai'n:
- diogelu ac yn gwella lles cynaliadwy yr ardal orau;
  - cydbwysu a chysoni'n effeithiol anghenion a dyheadau (sy'n cystadlu â'i gilydd o bosibl) gwahanol unigolion a gwahanol adrannau o gymunedau, gan sicrhau triniaeth a chanlyniadau teg a chyfiawn i bawb;
  - trafod dilysrwydd cytûn yr anghenion hynny (yng nghyd-destun blaenoriaethau strategol cenedlaethol y cytunwyd arnynt a'r gofynion sy'n cystadlu am adnoddau'n lleol);
  - mynd i'r afael â gwendidau hysbys (a rhagweld rhai tebygol) yng ngallu awdurdod i fodloni anghenion lleol ac/neu fylchau rhwng disgwyladau lleol a realiti;

<sup>2</sup> Gweler adrannau 3.29-3.30

- cynnwys defnydd effeithlon, effeithiol a chynaliadwy o adnoddau ariannol, naturiol a dynol wrth geisio sicrhau manteision lleol;
- adnabod yn glir y berthynas rhwng lles/ 'ansawdd bywyd' dinasyddion a chymunedau a lles yr ardal - yn ei chyd-destunau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol;
- er bod 'gwelliannau' yn ystyriaeth bwysig, cydnabod ei bod yn ddigon posibl nad dyna'r brif flaenoriaeth ymhob amgylchiad. Dylai awdurdodau hefyd fod yn awyddus i **ddiogelu** lles ac ansawdd bywyd rhag y pethau sy'n eu bygwth, gyda rhai o'r bygythiadau hynny o bosibl yn codi o ymdrechion â bwriadau da i'w gwella;
- adlewyrchu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o batrymau, tueddiadau a phosibiliadau yn y cyd-destunau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Byddai hyn yn cynnwys cydnabod y bygythiadau y gallai'r rhain eu hachosi i les cynaliadwy cymunedau a'r cyfleoedd y gallent eu cynnig o'i wella;
- gwneud defnydd llawn o ddulliau newydd ac arloesol o gyflawni'r uchod; ac yn bwysicach na dim o bosibl;
- bod yn heriol ond yn realistig. Y cyfan a wna 'rhestr ddymuniadau' o amcanion na ellir eu cyflawni yw codi gobeithion yn afrealistig ac nid yw'n ddim mwy dymunol na chyfres anuchelgeisiol o gamau gweithredu hunangyflawnol sy'n gwneud fawr ddim i fynd i'r afael â gwir angen. Dylai awdurdodau roi ystyriaeth ofalus i'w gallu i sicrhau newid cadarnhaol a llunio eu hamcanion yn unol â hynny;
- adlewyrchu'r dewisiadau anodd y gall awdurdod eu hwynebu wrth gytuno ar gyllidebau a blaenoriaethau. Gall hyn achosi i awdurdod beidio â chynnwys amcanion a fyddai wedi bod yn ddymunol fel arall. Gall hefyd olygu bod gan rai amcanion dilys eu hanfanteision; gallant olygu cyfnewid rhwng agweddau ar wella, neu achosi costau cyfle. Mae dull felly o weithredu'n ddilys ac yn angenrheidiol, yn arbennig yng ngoleuni cyfyngiadau ar adnoddau neu lle mae anghenion lleol yn arbennig o lym.

## Pennu Amcanion Gwella

3.13 Dylai awdurdodau bennu eu blaenoriaethau eu hunain ar gyfer gwella ar sail dealltwriaeth drwyadl wedi'i seilio ar dystiolaeth o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, anghenion lleol a'u gallu i fynd i'r afael â hwynt. Dylai amcanion gwella gyfateb yn union i flaenoriaethau'r awdurdod ar gyfer gwella. Felly bydd awdurdodau'n dewis eu hamcanion gwella ar sail hunan-ddadansoddiad beirniadol gan ystyried amrediad eang o dystiolaeth megis:

- y canlyniadau a'r blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer ardal yn ei strategaeth gymunedol fel y maent wedi eu diweddarau drwy'r broses gynllunio gymunedol gyson ar gyfer ardal<sup>3</sup>. Er nad yw'n ddigon i awdurdod lynu'n gaeth wrth y canlyniadau a'r blaenoriaethau a osodwyd yn y strategaeth gymunedol ddiwethaf a gyhoeddwyd, dylid eu hadolygu o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau mai hwy yw'r mynegiant gorau o hyd o uchelgeisiau cymuned

<sup>3</sup> Gweler pennod 4 o'r Canllawiau ar Strategaethau Cymunedol a Chynllunio

am well canlyniadau a'u bod yn cael eu hail-lunio wedyn fel camau tymor canolig a rennir ar gyfer yr awdurdod lleol a'i bartneriaid cynllunio cymunedol. Dylai'r blaenoriaethau hyn sy'n codi o'r broses gynllunio gymunedol ganoli ar y canlyniadau y mae dinasyddion a chymunedau yn eu disgwyl ac yn eu haeddu;

- y blaenoriaethau gwasanaeth a chorfforaethol sydd wedi eu cynnwys yng nghynllun gwella'r flwyddyn flaenorol;
- blaenoriaethau a nodwyd drwy'r partneriaethau statudol, fel y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc a'u cynlluniau cysylltiedig;
- canlyniad ymarferion asesu awdurdodau o swyddogaethau a gwasanaethau corfforaethol a ddarperir gan ddefnyddio'r data perfformiad mwyaf priodol, yn cynnwys dangosyddion perfformiad statudol a gwybodaeth o ffynonellau eraill fel gwybodaeth anghenion a bodlonrwydd dinasyddion a defnyddwyr a gwybodaeth ehangach am anghenion cymunedol, ond heb fod yn gyfyngedig i hyn;
- adroddiadau archwilio, rheoleiddio ac arolygu, yn arbennig yr Adroddiad Gwella Blynnyddol a gyhoeddir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru;
- canlyniadau adolygiadau cymheiriaid a deilliannau ac argymhellion prosesau craffu awdurdod;
- blaenoriaethau a bennwyd trwy ddadansoddi data perfformiad ar berfformiad y flwyddyn flaenorol a thrwy gymharu â sefydliadau eraill;
- tystiolaeth a gafwyd trwy ymgynghori ar amcanion gwella yn y flwyddyn flaenorol;
- blaenoriaethau cenedlaethol a rhyngwladol fel y cawsant eu mynegi gan Lywodraeth y Cynulliad, Llywodraeth y DU a'r Undeb Ewropeaidd;
- y cyd-destun byd-eang - e.e. newid hinsawdd a chynaliadwyedd, amodau economaidd a bygythiadau i iechyd.

3.14 Dylai'r amcanion gwella a ddewiswyd o ganlyniad i'r prosesau uchod fod yn rhai y gall dinasyddion, rhanddeiliaid a staff yr awdurdod gredu ynddynt. Dylai hynny greu gwell ymdeimlad o 'berchenogaeth' ar y dyheadau i'r cymunedau a'r ardal.

## Llunio Amcanion Gwella

3.15 Trwy gwblhau'r prosesau uchod dylai awdurdodau allu llunio eu hamcanion gwella eu hunain ar gyfer ymgynghori. Gall y rhain fod ar unrhyw ffurf y mae'r awdurdod yn ei ddymuno, ond dylai pob amcanion gwella fod yn:

- ddilys - gan wneud cyfraniad amlwg at o leiaf un (neu, mae'n debyg, fwy nag un) o'r agweddau ar wella a restrir yn y Mesur;
- clir - gan amlinellu'r gwelliant amlwg y gall dinasyddion ei ddisgwyl;
- cadarn - gydag amodau llwyddiant wedi'u diffinio (boed feintiol neu ansoddol);



- yn rhai y gellir eu cyflenwi - gyda chysylltiadau wedi eu sefydlu i raglenni a chyllidebau gwasanaeth unigol;
  - profadwy - y gellir eu cefnogi ag amcan (ond nid mesuredig nac ansoddol o reidrwydd) gwrthrychol.
- 3.16 Mae'n werth aros ennyd gyda'r cyntaf o'r pwyntiau hyn. Nid rhestr gyfeirio yw'r agweddau ar wella yn y Mesur ar gyfer llunio amcanion ac nid oes angen eu defnyddio fel penawdau ar gyfer grwpio amcanion gwella unigol. Yn hytrach, amlinellu'n gyffredinol y maent y mathau o ddibenion y bydd awdurdodau am eu cyflawni. Bydd llawer os nad y mwyafrif o'r amcanion gwirioneddol yn cyfrannu at fwy nag un agwedd ar wella - er enghraifft, gallai camau i'w gwneud yn haws i Sipsiwn a Theithwyr allu cael gafael ar wasanaethau hefyd fynd i'r afael ar yr un pryd â'r agweddau 'tegwch' ac 'argaeledd gwasanaeth', tra gallai lleihau ôl-troed carbon awdurdod roi sylw i faterion 'cynaliadwyedd' ac 'effeithlonrwydd'. Yn yr un modd, mae'n bosib (er yn annhebygol efallai) i gyfres o amcanion beidio mynd i'r afael ag un neu fwy o'r agweddau gwella o gwbl. Mae hynny'n berffaith ddilys os gellir ei amddiffyn yng nghyd-destun arbennig awdurdod.
- 3.17 Mater arall i'w benderfynu'n lleol yw faint o amcanion gwella i'w gosod. Yn bennaf mae hyn yn fater o beth yw lefel briodol y manylder: po fwyaf manwl yw pob amcan, y mwyafrif ohonynt fydd. Gall amcanion fod yn rhy eang ac uchelgeisiol, heb y gallu i lywio camau gweithredu ac atebolrwydd effeithiol (e.e. "byddwn yn cefnogi cymunedau iachach") ac yn rhy gyfyng neu weithredol, heb synnwyr diben cyffredinol (e.e. "byddwn yn ailwampio ein canolfannau hamdden"). Y safbwynt gorau yw rhywle yn y canol: amcanion sy'n disgrifio'r diben cyffredinol a'r sgôp ar gyfer eu gweithredu (e.e. "byddwn yn darparu mwy o gyfleoedd gwell er mwyn i ddinasyddion allu cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol").
- 3.18 Ar y cyfan, mae'n debyg ei bod yn well, er lles eglurder ac atebolrwydd, ceisio cael llai o amcanion, gyda chysylltiadau manwl i raglenni gwasanaeth, na chael nifer mwy o amcanion mwy manwl. Y naill ffordd neu'r llall, os yw'r amcanion o'u cymryd gyda'i gilydd yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r prif flaenoriaethau ac amcanion lleol, nid yw eu hunion nifer mor bwysig.
- 3.19 Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau bennu amcanion gwella bob blwyddyn. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu y dylai pob amcan gwella newid bob blwyddyn, nac ychwaith y dylid eu cyflawni o fewn blwyddyn. Mae'n hollol iawn pennu amcanion sy'n cwmpasu mwy nag un flwyddyn, gyda cherrig milltir bob hyn a hyn efallai, ar yr amod fod yr awdurdodau'n eu hadolygu'n flynyddol er mwyn sefydlu eu perthnasedd parhaol.
- 3.20 Heb amharu ar hyblygrwydd awdurdodau yma, gallai cwmpas a lefel y manylion sydd wedi eu cynnwys yn neilliannau cytundeb gwella 2008-2010 y rhan fwyaf o awdurdodau lleol ddarparu templed ar gyfer llunio amcanion gwella. Yn wir, yng nghramau cynnar y Cynllun Cymru ar gyfer Gwella newydd, gallai'r canlyniadau cytundeb gwella eu hunain ffurfio sylfaen ar gyfer cyfres ddilys o amcanion gwella.



3.21 Rhaid i bob awdurdod yn naturiol gytuno ar ei amcanion gwella'n ffurfiol. Bydd y prosesau ar gyfer cyflawni hyn yn cael eu nodi yng nghyfansoddiad pob awdurdod. Ond byddai pwysigrwydd amcanion gwella fel rheol yn gofyn am gymeradwyaeth gan y Cyngor llawn. Gweler hefyd yr adran ar "Rôl Craffu" isod.

## Ymgynghori ynglŷn â Gwella

3.22 Dylai amcanion gwella ddal y prif flaenoriaethau ar gyfer ardal a'i dinasyddion. Dylid eu mynegi gan ystyried beth fydd yn cael ei gyflawni gan yr awdurdod yn ystod y flwyddyn, ac yn ystod y blynyddoedd i ddod, lle byddai hyn yn briodol. Felly mae'n hollbwysig bod buddiannau lleol yn chwarae rhan lawn yn eu datblygiad, yn unol ag adran 5.

3.23 Gall ymgynghori ar y ddyletswydd gyffredinol i wella ac amcanion gwella'r awdurdod ddigwydd ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn, er y byddai'n gwneud synnwyr trefnu iddo gydredeg â phrosesau a digwyddiadau ymgysylltu cymunedol sydd wedi'u sefydlu neu'u cynllunio. Dylai'r awdurdod geisio gwneud y broses o ddewis a gwrthod amcanion gwella mor agored a thryloyw â phosibl. Dylai'r awdurdod hefyd sicrhau bod y broses hon yn cyd-fynd â'i gyfansoddiad a/ neu reolau sefydlog. Wrth wneud hynny dylai awdurdod geisio datblygu deialog cyson gyda'r cymunedau a'r ardaloedd y mae'n eu gwasanaethu fel bod sefydlu amcanion gwella'n broses a gyd-berchnogir sy'n canoli ar asesiad cytbwys o anghenion y gymuned gyfan yn hytrach nag unrhyw sefydliad neu grŵp buddiant neilltuol oddi fewn iddi.

3.24 Er mwyn cyflawni hyn, gallai awdurdodau ystyried darparu allgymorth i ddinasyddion a grwpiau cymunedol i'w helpu i ddeall y broses o osod amcanion gwella a buddiant a rôl cymunedau mewn cyflawni ei nodau.

3.25 Prun bynnag, argymhellir y dylai awdurdod ymgynghori â'r canlynol cyn gosod ei amcanion gwella:

- dinasyddion a rhanddeiliaid;
- busnesau lleol, a busnesau posibl lle bo hynny'n briodol;
- ei bartneriaid cynllunio cymunedol a statudol eraill<sup>4</sup>;
- awdurdodau eraill (yn arbennig lle gallai unrhyw amcanion gwella arfaethedig gael effaith arnynt);
- cyrff eraill y mae cydlafurio'n digwydd â hwy neu'n cael ei gynllunio.

3.26 Bydd angen i awdurdodau gadw tystiolaeth o'u hymgyngoriadau er mwyn gallu dangos bod eu hamcanion gwella, a'u cynlluniau i'w bodloni, wedi eu gosod yn briodol. Er budd craffu ac atebolrwydd dylid cadw'r dystiolaeth hon ar ffurf sy'n hawdd cael gafael arni.

---

<sup>4</sup> Gweler adran 3.1-3.3 o'r Canllawiau ar Strategaethau Cymunedol a Chynllunio

## Cofnodi ac Adrodd ar Gynnydd

- 3.27 Bydd angen i awdurdodau gasglu tystiolaeth o'u cynnydd yn cyflawni eu hamcanion gwella yn ystod y flwyddyn. Mater i'r awdurdodau eu hunain yw penderfynu beth yw'r dystiolaeth orau ar gyfer y cynnydd y maent yn ceisio'i wneud, a'r amser gorau i wneud hynny yw wrth osod amcanion gwella. Fodd bynnag, bydd rhaid i'r dystiolaeth fodloni anghenion Archwilydd Cyffredinol Cymru a rheoleiddwyr perthnasol eraill. Gallai'r fath dystiolaeth gynnwys un neu fwy o'r canlynol:
- dangosyddion perfformiad; y rhai a osodwyd yn lleol ac yn genedlaethol;
  - gwybodaeth ansoddol fel arolygon bodlonrwydd defnyddwyr, tenantiaid a dinasyddion (arolygon a gafodd eu cynnal gan yr awdurdod neu gan gyrrff eraill);
  - cynnydd wrth gyflwyno neu gwblhau rhaglenni, cyfleusterau neu ffyrdd o weithio sy'n cyfrannu at sicrhau amcanion gwella;
  - canlyniad ymholiadau craffu a thystiolaeth arall gan Aelodau;
  - adroddiadau gan reoleiddwyr a chyrff arolygu;
  - unrhyw ffynonellau tystiolaeth eraill sy'n ymddangos yn berthnasol.
- 3.28 Sylwer bod gwahaniaeth hollbwysig rhwng amcan a thystiolaeth ei fod wedi ei gyflawni. Mae'r cyntaf yn disgrifio blaenoriaeth neu angen gweddol gyffredinol y mae'r awdurdod am ei gyflawni; dengys yr olaf i ba raddau y bydd yn gwneud hynny, neu y mae wedi gwneud hynny.
- 3.29 Er enghraifft, gallai awdurdod ddiffinio un o'i amcanion gwella fel "cynyddu annibyniaeth ac ansawdd bywyd pobl hŷn rydym yn gofalu amdanynt". Gallai wedyn benderfynu mynd ati i wneud hynny, ymhlith pethau eraill, trwy gynyddu cyfran y bobl hŷn sy'n derbyn gofal yn eu cartrefi eu hunain, rhoi gwell cyhoeddusrwydd i wasanaethau ar gyfer gofalwyr, neu agor canolfan ddydd newydd. Mae'r rhain yn gamau gweithredu y gall awdurdod eu cymryd ac a ddylai arwain at ganlyniadau gwell i bobl hŷn: nid ydynt yn ganlyniadau ynddynt eu hunain. Yn hytrach, tystiolaeth rannol a dirprwyol ydynt o'r graddau y gall annibyniaeth pobl hŷn fod wedi gwella. Mae'n debyg y byddai amcan fel hyn yn cyfrannu at aml agwedd ar wella - o leiaf "ansawdd gwasanaeth", "argaeledd gwasanaeth" a "thegwch," ac, os byddai cyfeiriad priodol at hynny yn strategaeth gymunedol yr awdurdod, "effeithiolrwydd strategol" hefyd.
- 3.30 Mae'n debyg y bydd angen ystod o dystiolaeth i ddangos bod y mwyafrif o amcanion gwella cadarn wedi cael eu cyflawni. Yn sicr, dylai awdurdodau osgoi defnyddio targedau dangosyddion perfformiad a'u tebyg fel amcanion ynddynt eu hunain. Ym mhob achos bron byddant yn rhy gul ac yn rhy bell oddi wrth yr hyn y mae'r cyhoedd yn ei ddeall a'i angen. Felly dylent gael eu hystyried fel dim ond un o'r arfau i helpu i arddangos gwelliant.

3.31 Wrth gasglu tystiolaeth fel yr amlinellir uchod dylai awdurdodau geisio casglu ynghyd y corff tystiolaeth fydd yn eu galluogi i ddarparu disgrifiad naratif o ba mor llwyddiannus y buont wrth geisio cyflawni eu hamcanion gwella er mwyn rhoi cyfrif o'u perfformiad i'w ddinasyddion, eu rhanddeiliaid a chyrff rheoleiddio. Ni ddylent ganolbwyntio ar 'faint' neu 'pa mor dda' yn unig, ond yn bwysicach na hynny ar ba effaith a gyflawnwyd. Dylid casglu'r ystod tystiolaeth hwn at ei gilydd a'i gyfathrebu mewn adroddiad neu adroddiadau, y bydd yn rhaid i awdurdodau eu cyhoeddi erbyn 31 Hydref yn y flwyddyn ariannol ddilynol yn ôl adran 15 y Mesur. Ceir mwy o fanylion am hyn ym Mhennod 5.

## Rôl Craffu<sup>5</sup>

3.32 Mae rôl glir i swyddogaeth graffu awdurdod yn ei brosesau gwella fel rhan o'i rôl yn galw penderfynwyr a llunwyr polisi i gyfrif yn lleol, a'i rôl yn datblygu polisiau. Dylai hyn ymestyn i:

- graffu ar y prosesau y mae awdurdod wedi mynd trwyddynt wrth gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol i wella;
- craffu ar addasrwydd y sefydliad i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol i wella;
- craffu ar y prosesau y mae awdurdod wedi mynd trwyddynt wrth ddewis ei amcanion gwella, gan gynnwys adolygu lefel yr ymgysylltu â rhanddeiliaid;
- craffu ar fonitro'r cynnydd wrth gyflenwi amcanion gwella'r awdurdod;
- hyrwyddo arloesi trwy herio'r drefn ac annog gwahanol ffyrdd o feddwl ac opsiynau cyflenwi.

3.33 Os yw prosesau craffu awdurdod wedi datblygu'n ddigonol i gyflawni'r uchod, a bod tystiolaeth glir o hynny i'w chael, yna gall yr Archwilydd Cyffredinol a rheoleiddwyr perthnasol fanteisio ar y gweithgaredd craffu hwn yn ystod eu hymwneud â'r awdurdod. Mater i'r Archwilydd Cyffredinol a rheoleiddwyr perthnasol fydd penderfynu a yw prosesau craffu'n ddigon cadarn fel y gallant ddibynnu arnynt wrth ymarfer eu swyddogaethau.

---

<sup>5</sup> Mae adrannau 3.29 a 3.30 yn berthnasol i awdurdodau lleol yn unig ac nid ydynt yn berthnasol i awdurdodau Parc Cenedlaethol.

## Pennod 4

# Gwybodaeth am Welliannau

- 4.1 Er mwyn cefnogi gosod amcanion gwella, a chyflawni eu dyheadau arweiniad cymunedol yn well, bydd angen i awdurdodau symud ymlaen o drefniadau rheoli perfformiad sy'n ymdrin â chyflenwi gwasanaethau y maent yn eu darparu yn unig. Rhaid symud i drefn sy'n ymwybodol o'r effeithiau y mae darpariaeth gwasanaethau a gweithgareddau yn eu cael ar ardal a'i chymunedau, ac a fydd yn cael ei llywio gan hynny. Byddai hyn yn cynnwys rheoli a gwerthuso'r effaith y mae'r awdurdod yn ei chael ar ganlyniadau strategaeth gymunedol.
- 4.2 Yn unol â hynny dylai awdurdodau geisio defnyddio 'basged' lawer ehangach o dystiolaeth i asesu sut mae eu gwasanaethau'n perfformio a'r effaith y maent yn ei chael ar y canlyniadau i ddinasyddion a chymunedau. Bydd hyn o reidrwydd yn ddibynnol ar awdurdodau'n cymryd cyfrif o ystod eang o dystiolaeth i'w ddefnyddio fel gwybodaeth am welliannau. Er bod dangosyddion perfformiad yn dal i fod yn ffynonellau pwysig o dystiolaeth wrthrychol y gellir ei chymharu, nid ydynt o reidrwydd yn rhoi darlun cyflawn o ansawdd gwasanaeth neu brofiad defnyddwyr ohono. Gallai'r 'fasged' honno o dystiolaeth gynnwys unrhyw rai o'r canlynol:
- dangosyddion perfformiad (statudol, safonol neu leol);
  - data bodlonrwydd: arolygon dinasyddion, barn paneli neu reithgorau defnyddwyr, tenantiaid neu ddinasyddion (gan gynnwys Arolwg Cenedlaethol Cymru);
  - nifer a natur y galwadau i ganolfannau galw neu bwyntiau cyswllt eraill â dinasyddion;
  - lefelau defnydd gwasanaeth;
  - canlyniadau asesiadau gwasanaeth ac adolygiadau cymheiriaid;
  - allbynnau proses graffu awdurdod;
  - canfyddiadau archwilio, rheoleiddio ac arolygu;
  - lefelau achredu cynlluniau asesu cydnabyddedig;
  - gwybodaeth ynglŷn ag angen am brosiect neu raglen (e.e. adeiladu amwynder newydd);
  - gwybodaeth ynglŷn ag angen am ddull cyflenwi gwasanaeth newydd neu fwy arloesol.
- 4.3 Nawr disgwylir i awdurdodau ddefnyddio'r wybodaeth hon am welliannau y maent yn ei chasglu i gymharu eu perfformiad â'u perfformiad hanesyddol eu hunain mewn blynyddoedd ariannol blaenorol a gydag awdurdodau eraill sy'n darparu

gwasanaethau tebyg. Dylai'r asesiad cymharol hwn fynd ymlaen drwy'r flwyddyn mewn awdurdod, ond bydd angen cyhoeddi crynodeb fel rhan o'r adroddiad gwella (gweler pennod chwech).

- 4.4 Ni ddylai cymharu perfformiad fod yn rhywbeth a wneir er ei fwyn ei hun, nac yn fater syml o gyfrifiannu safle'r awdurdod mewn 'tabl cynghrair' neu ddsbarthiad chwartel anffurfiol. Dylai lywio asesiad awdurdod o'i angen i wella'r gwasanaethau y mae'n eu darparu a lles y cymunedau a'r ardaloedd y mae'n eu gwasanaethu. Yn amlwg, lletaf yn y byd yw'r 'fasged' dystiolaeth y gall awdurdod fanteisio arni, yna gorau yn y byd fydd ei sefyllfa i gynllunio a thargedu ei weithgaredd gwella yn y dyfodol.
- 4.5 Mae gwerthuso basged lydan o ddata yn rhoi'r cyfle i awdurdodau a'u partneriaid asesu eu perfformiad a'u cyflawniadau yn y gorffennol, ond hefyd yn nodi blaenoriaethau tymor byr, canolig a hir lle mae angen gwella. Gall dadansoddi'r data helpu i lunio amcanion gwella'r flwyddyn ddilynol, ar yr un pryd â helpu i nodi a monitro camau sydd eu hangen i gyflawni amcanion y strategaeth gymunedol o dan Ran 2.

## Dangosyddion Perfformiad Statudol

- 4.6 Caiff Gweinidogion Cymru ddefnyddio eu pwerau, sydd wedi eu cynnwys yn y Mesur, i osod mesurau strategol cenedlaethol fydd yn caniatáu i awdurdodau fesur ac adrodd ar eu cyfraniad i amcanion polisi Cymru gyfan mawr. Cyflwynir unrhyw fesurau strategol cenedlaethol mewn Gorchymyn gan Weinidogion Cymru a ategir gan ganllawiau a diffiniadau ychwanegol a gyhoeddir gan Lywodraeth y Cynulliad. Bydd dyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau lleol i gasglu ac adrodd ar y dangosyddion hyn. Dylent wneud hynny trwy gynnwys y data yn eu hadroddiadau gwella (gweler pennod chwech) a dylent hefyd gyflwyno'r data i Lywodraeth y Cynulliad mewn ymateb i gais. Fel gydag unrhyw wybodaeth am berfformiad, archwilir dangosyddion perfformiad statudol yn allanol os yw'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn fod angen gwneud hynny neu os yw'r awdurdod yn gofyn am hynny.

## Dangosyddion Perfformiad Safonol

- 4.7 Er y bydd gan Weinidogion Cymru ddiddordeb mewn gosod mesurau perfformiad sy'n cyfrannu at amcanion polisi Cymru gyfan, mae'n annhebygol y bydd y rhain yn ddigon i roi darlun cynhwysfawr, cytbwys y gellir ei gymharu o berfformiad awdurdod a'r tebygolrwydd y bydd yn gwella. Er hynny mae'r gallu i ddatblygu a chyfathrebu darlun o'r fath yn offeryn gwella hanfodol ac yn greiddiol i Raglen Cymru ar gyfer Gwella. Bydd angen tystiolaeth gadarn ar awdurdodau i bennu amcanion gwella ac i asesu'r effaith y gallent ei chael ar wasanaethau a ddarperir i gymunedau a lleoedd.

- 4.8 Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i ariannu set o fesurau perfformiad sydd wedi eu diffinio'n genedlaethol drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a bydd yn ariannu casglu data blynyddol o leiaf. Er hyn mater i awdurdodau, arolygwyr a rheoleiddwyr ei benderfynu ymhlith ei gilydd yn gyfan gwbl fydd cwmpas a chynnwys y setiau dangosyddion hyn. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ariannu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gytuno ar hyn bob blwyddyn.
- 4.9 Bydd y mesurau perfformiad sydd wedi eu diffinio'n genedlaethol yn:
- darparu gwybodaeth fanwl y gellir ei chymharu ar y canlyniadau a gyflawnwyd o fewn a rhwng y gwasanaethau y maent yn ymdrin â hwy, ac ar argaeledd ac ansawdd gwasanaeth a'r defnydd o adnoddau i'w cefnogi;
  - cynorthwyo awdurdodau i egluro a rhoi cyfrif am eu perfformiad i randdeiliaid, a'u hannog i ymwneud â gwerthuso perfformiad a gosod blaenoriaethau;
  - bodloni rhai o anghenion data rheoleiddwyr ac arolygwyr cyn belled ag y bo modd, gan leihau'r angen i ddatblygu data;
  - gallu dadelfennu i ddatgelu lefelau gwahaniaethol o ddarpariaeth ar gyfer gwahanol grwpiau cymunedol a chategorïau amrywiaeth, a pherfformiad mewn cysylltiad â'r rhain;
  - hyblyg ac yn ddeinamig, yn abl i esblygu dros amser i adlewyrchu profiadau awdurdodau lleol ac eraill o'u defnyddio;
  - rhai cymaradwy, yn amodol ar yr uchod, dros amser ac ar draws Cymru, gan ei gwneud yn bosibl i awdurdodau ganfod yn rhwydd ble gallent wella ac yn yr un modd ble gallent rannu arfer effeithiol.
- 4.10 Mae'r olaf o'r nodweddion hyn yn hollbwysig. Mae meincnodi ac adnabod a rhannu arfer gorau yn sbardunau pwerus dros wella, gan eu bod yn tynnu ar brofiad cyfunol ac arbenigedd y teulu llywodraeth leol ehangach, a dylai pob awdurdod gymryd mantais lawn o hynny. Ni all yr un awdurdod gyfranogi'n llawn yn Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella trwy weithredu'n ynysig, ac fel arfer byddai gwneud hynny'n cynrychioli risg berthnasol, i'r awdurdod dan sylw ac, i'r graddau y byddai'n peryglu hunaniaeth y system yn ei chyfanrwydd, ar lefel Cymru gyfan.
- 4.11 Yn unol â hynny, dylai pob awdurdod:
- gyfranogi'n llawn yn y trefniadau ar gyfer perchnogi, datblygu, uwchraddio a diweddarau'r dangosyddion safonol (er enghraifft, drwy gynnig ac/neu dreialu mesurau newydd i gynnwys dulliau newydd o weithio, diwygio'r mesurau presennol i'w gwneud yn fwy defnyddiol, neu ddileu mesurau y teimlir nad ydynt o werth bellach neu sy'n rhy anodd i'w casglu mewn modd dibynadwy);
  - casglu data yn erbyn pob un o'r dangosyddion, a'u cyfrannu i'r gronfa gyffredin drwy eu cyflwyno i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (neu'r asiantaethau y mae wedi eu penodi), fydd yn cwblhau'r ffurflenni i hwyluso hyn, lle mae'r data wedi ei dynnu o ffynonellau cyffredol;

- defnyddio'r data yn briodol, i roi cyfrif am eu gweithgareddau i ddinasyddion a phartneriaid a'u hegluro, ac i'w cynnwys mewn gwerthuso cynnydd a gosod blaenoriaethau. Gallai hyn gynnwys cynhyrchu adroddiadau perfformiad ar gyfer gwasanaethau penodol yn seiliedig ar ddata perfformiad, er enghraifft, i lywio trafodaethau gyda phartneriaid a defnyddwyr gwasanaeth.
- 4.12 Gallai data dangosyddion perfformiad safonol gael ei archwilio os bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn barnu fod angen gwneud hynny, er enghraifft os oes pryderon ynglŷn â chadernid y systemau casglu data mewn ardal neilltuol. Ond bydd hawl gan awdurdodau i ofyn i ddangosyddion perfformiad neilltuol gael eu harchwilio os oes pryderon ganddynt ynghylch cywirdeb y data a gafwyd ohonynt neu o ganlyniad i ddiddordeb penodol ynddynt.

## Dangosyddion Lleol

- 4.13 Nod y mesurau perfformiad sydd wedi eu rhagnodi'n genedlaethol yw dal perfformiad ar draws pob maes gwasanaeth y maent yn ei gwmpasu. Er hynny nid ydynt yn gwbl gynhwysfawr ac, yn arbennig, ni allant fesur cyflenwi polisïau, blaenoriaethau neu brosiectau lleol penodol, y mae awdurdodau wedi ymrwymo iddynt. Ac mae'n amlwg na fyddant yn mesur cynnydd tuag at amcanion nad oes modd eu mesur yn feintiol. Heb ffyrdd o fesur y rheini hefyd ni fyddai'r fframwaith mesur perfformiad yn gynhwysfawr nac yn gytbwys o fewn pob awdurdod.
- 4.14 Felly dylai awdurdodau barhau i ddatblygu a defnyddio eu mesurau perfformiad lleol eu hunain sy'n adlewyrchu eu hamgylchiadau neu ddyheadau unigol, yn ogystal â chefnogi penderfyniadau rheoli a gweithredol manwl. At hynny, ar ôl penderfynu ar eu hamcanion gwella bydd angen i awdurdodau ystyried unrhyw ofynion data ychwanegol allai godi a gosod dangosyddion lleol ar eu cyfer eu hunain yn unol â hynny. Dylent hefyd ddefnyddio arfau asesu anfeintiol fel y bo'n briodol. Mewn rhai achosion, gallai dulliau felly fod yn berthnasol ac yn ddefnyddiol i awdurdodau eraill hefyd, ac felly dylai awdurdodau eto fod yn barod i rannu eu profiadau o ddatblygu a defnyddio dangosyddion lleol gyda'u cymheiriaid. Fodd bynnag, mae adran 9 y Mesur yn rhoi'r pŵer i awdurdodau gydlafurio, ac mae adran 12 yn mynnu bod awdurdodau'n ystyried a fyddai cydlafurio o'r fath o gymorth gyda chyflawni eu dyletswyddau gwella. Os felly, rhaid iddynt geisio ymarfer y pŵer hwnnw. Mae'n debyg y bydd rhannu profiadau a gwybodaeth am ddangosyddion yn dod o fewn y darpariaethau hyn.

## Gwybodaeth Ychwanegol am Wella

4.15 Mae'n amlwg y bydd angen data cyd-destunol ychwanegol neu wybodaeth gymunedol ar awdurdodau a fydd yn eu helpu i benderfynu ar eu hamcanion gwella ac i gefnogi eu systemau llywodraethu ac atebolrwydd. Mae angen yr wybodaeth ychwanegol am wella er mwyn i awdurdodau ystyried y ffactorau allanol allai effeithio ar le neu gymunedau a byddant o gymorth i awdurdod nodi a deall:

- anghenion a dyheadau pob rhan o'r cymunedau a rhanddeiliaid eraill y maent yn eu gwasanaethu, gan gynnwys cenedlaethau'r dyfodol;
- ffactorau a allai fygwth a chynnig cyfleoedd i wella pob agwedd ar les cymunedol; a bwydo'r wybodaeth hon i bob cam o'r cylch cynllunio, cyflenwi a gwerthuso.



# Pennod 5

## Cydweithio<sup>6</sup>

### Cydlafurio i Wella a phwerau a dyletswyddau awdurdodau

- 5.1 Mae penodau cynharach y canllawiau hyn yn nodi'r egwyddor sylfaenol y dylai'r broses o wella edrych tuag allan, gan ymwneud â chyflawni canlyniadau gwell i ddinasyddion a chymunedau. Ni ddylid canolbwyntio ar gryfhau prosesau mewnol yr awdurdod a chynnyrch gwasanaethau fel nodau ynddynt eu hunain.
- 5.2 O ganlyniad, mae angen i awdurdodau ystyried y trefniadau cyflwyno a allai wireddu'r canlyniadau hynny orau. Ni ddylent ragdybio bod prosesau traddodiadol neu sefydledig bob amser yn addas. Mewn nifer o achosion, gall y canlyniadau fod yn well, yn gyflymach neu'n fwy effeithlon pan fydd awdurdodau'n gweithredu mewn cydweithrediad â'i gilydd neu â sefydliadau eraill.
- 5.3 Ceir cydnabyddiaeth helaeth i gydlafurio fel dull o sbarduno llawer math o wella. Trwy weithio gyda chyrrff eraill - nid dim ond awdurdodau eraill - gall awdurdod, o leiaf:
- wella effeithiolrwydd strategol drwy gydlyn eu gweithrediadau hwy â rhai sefydliadau eraill, a chyflawni canlyniadau'r strategaeth gymunedol nad ydynt yn gyfangwbl o fewn rheolaeth yr awdurdod;
  - gwella ansawdd, tegwch ac arloesedd gwasanaethau trwy fabwysiadu arfer gorau o rywle arall neu drwy rannu arbenigedd rheoli, proffesiynol neu dechnegol prin;
  - gwella argaeledd gwasanaethau trwy, er enghraifft, gynyddu cyfran y staff rheng flaen a lleihau'r gorbenion gweinyddol;
  - gwella effeithlonrwydd a chynaliadwyedd trwy sicrhau arbedion maint a manteisio ar allu prynu mwy.

Gall hyn fod yn arbennig o bwysig ar adegau pan fydd pwysau ar arian cyhoeddus, ac awdurdodau'n naturiol yn ceisio diogelu gwasanaethau rheng flaen a chynnal ffocws strategol. O'i reoli'n gywir, gall cydlafurio wneud defnydd gwell o adnoddau prin a chaniatáu i ystod eang o wasanaethau gael eu cynnal.

<sup>6</sup> Nid oes awdurdod gan Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau ar bwerau awdurdodau i gydlafurio o dan y Mesur. Felly, nid oes gan y bennod hon rym statudol ac mae'n bennod gynghorol yn unig.

Dylid ystyried y sgôp ar gyfer gwella yn unol â hynny. Nid yw wedi'i gyfyngu i'r hyn y gall awdurdodau ei ddarparu neu'i gyflawni drwy weithredu yn unigol. Yn hytrach, os oes potensial i awdurdodau sicrhau gwelliant drwy gydlafulio, yna mae'n ofynnol yn ôl adran 12 y Mesur i'r awdurdodau hynny geisio cydlafulio. Felly ni fydd awdurdod sydd heb wneud defnydd llawn a phriodol o gydlafulio, yn ôl pob tebyg, wedi cyflawni ei ddyletswydd gyffredinol yn ddigonol, hyd yn oed os yw'n cyflawni'r rhan fwyaf o'i amcanion gwella a bod ei wasanaethau'n perfformio'n weddol dda.

- 5.4 Mae rhoi trefniadau cydlafulio effeithiol yn eu lle yn cymryd amser ac adnoddau, ac mae angen i'r manteision posibl gyfiawnhau hynny'n glir. Mae'r un mor bwysig i'r trefniadau fod yn hollol glir ynghylch rolau a chyfrifoldebau perthnasol, llywodraethu'r prosiect, a sut y bydd cyfranogwyr yn rhoi cyfrif am ei berfformiad yn fewnol ac yn allanol.
- 5.5 Fodd bynnag, er mwyn cael gwared ag ansicrwydd cyfreithiol sy'n gallu oedi neu lesteirio prosiectau cydlafulio posibl, mae adran 9 y Mesur yn rhoi pŵer cyffredinol i awdurdodau sy'n caniatáu iddynt gydlafulio er mwyn sicrhau gwelliant parhaus, bodloni amcanion gwella, ac/neu fodloni safonau perfformiad a nodwyd. O dan y pŵer hwn, bydd awdurdod yn gallu:
  - a. darparu cymorth ariannol;
  - b. llunio trefniadau neu gytundebau;
  - c. cydweithredu â gweithgareddau person arall, eu hwyluso neu eu cydlynu<sup>7</sup>;
  - d. arfer swyddogaethau ar ran person arall;
  - e. darparu staff, nwyddau, gwasanaethau neu lety.
- 5.6 Nid oes cyfyngiadau ar awdurdodau o ran y rhai y cânt gydlafulio â hwy. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau Cymru eisoes yn gyfarwydd â chydlafulio â'i gilydd, yn yr un modd, cyn belled nad oes unrhyw rwystrau cyfreithiol rhag gwneud hynny, bydd hawl gan awdurdodau i ystyried cydlafulio gydag awdurdodau eraill yn y DU, neu sefydliadau (trydydd sector, elusennol a busnesau wedi eu lleoli yn y DU ac/neu dramor).

---

<sup>7</sup> Noder fod "person" yma'n golygu endid â nodweddion cyfreithiol, gan gynnwys cyrff cyhoeddus, cwmnïau ac elusennau. Nid yw'n golygu person dynol yn unig.

## Ymgynghori ac Adrodd

- 5.7 Tua dechrau pob blwyddyn ariannol, rhaid i awdurdod gwella gyhoeddi ei gynllun edrych tua'r dyfodol sy'n amlinellu sut mae'n bwriadu cyflawni ei ddyletswydd gyffredinol ac i fodloni ei amcanion gwella dros y 12 mis nesaf neu fwy.
- 5.8 Dylai awdurdodau ystyried o bryd i'w gilydd a fyddai arfer eu pwerau cydlafurio yn eu helpu i gyflawni eu dyletswydd gyffredinol i wella. Mae'n amlwg y dylai pob awdurdod benderfynu drosto'i hun pryd fyddai'r amser gorau i ystyried cyfleoedd i gydlafurio ond mae'n ymddangos y byddai'r canlynol yn amserol:
- wrth bennu ble mae angen gwella;
  - wrth lunio amcanion gwella, neu wrth ymgynghori arnynt;
  - yn ystod y broses gosod cyllideb;
  - wrth ystyried aildrefnu gwasanaeth neu staffio;
  - wrth ystyried yr opsiynau cyflenwi gwasanaethau;
  - wrth ymateb i allbynnau, neu argymhellion, gweithgaredd craffu;
  - pan dderbynnir adroddiadau gan arolygwyr a rheoleiddwyr;
  - wrth dderbyn gwahoddiad i wneud hynny gan awdurdodau gwella eraill neu Weinidogion Cymru.
- 5.9 Dylai awdurdodau gyhoeddi dogfen gryno o'u gweithgaredd cydweithredol yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol, sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni eu hamcanion gwella. Nid oes angen i hon fod yn fanwl nac yn faith. Er enghraifft, "ar hyn o bryd rydym yn cydlafurio gydag awdurdod X i ddarparu Cynnal a Chadw Priffyrdd yn ein dwy ardal, sy'n caniatáu i'r ddau ohonom fanteisio ar gronfa gyffredin o arbenigedd peirianyddol a lleihau ein costau cyfalaf". Gall awdurdodau ddewis defnyddio achlysur cyhoeddi'r wybodaeth wella ar neu cyn 31 Hydref bob blwyddyn hefyd er mwyn cyhoeddi crynodeb o'i weithgaredd cydweithredol.

## Pennod 6

# Rhoi Cyfrif am Wella

6.1 Un o egwyddorion cyffredinol y diwygiad hwn i Raglen Cymru ar gyfer Gwella yw bod yn rhaid i wella fod wedi ei wreiddio yn anghenion gwirioneddol ardal a'i dinasyddion, nid peirianwaith mewnol awdurdod. Mae angen cymhwysu'r egwyddor hon yn yr un modd i roi cyfrif am weithgaredd gwella er mwyn cryfhau'r ymdeimlad o gydberchnogaeth ar y broses wella. Mae'r broses wirioneddol o roi cyfrif am wella yn ymrannu'n ddau gam yr un mor bwysig â'i gilydd mewn cysylltiad â'r cylch cynllunio ac adrodd.

### Cynlluniau a Bwriadau

6.2 Dylai'r cam adrodd cyntaf gynnwys cynlluniau'r awdurdod ar gyfer y flwyddyn honno. Mae hynny'n bennaf yn golygu manylion am sut y mae'n bwriadu cyflawni ei **amcanion gwella**, fel a ganlyn:

- datganiad cyffredinol yn amlinellu natur bwriad yr awdurdod i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol i wella a'i amcanion gwella ar gyfer y flwyddyn;
- eglurhad yn nodi pam y cawsant eu dewis a'r canlyniadau y gallai cymunedau eu disgwyl os cânt eu cyflawni;
- datganiad ar y broses a ddilynwyd wrth ymgynghori ar yr amcanion gwella ac unrhyw faterion a gododd o'r ymgynghori;
- disgrifiad o sut y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu cyflawni pob un o'r amcanion gwella a bennwyd ar ei gyfer ei hun;
- y dystiolaeth (gan gynnwys dangosyddion perfformiad a thargedau ond heb fod yn gyfyngedig mewn unrhyw ffordd i hynny) y mae'r awdurdod wedi ei osod iddo'i hun er mwyn monitro ei gyflawniad o'i amcanion gwella (gweler pennod 4);
- gwybodaeth am sut gallai cymunedau neu randdeiliaid gynnig amcanion gwella newydd yn ystod y flwyddyn.

6.3 Yn unol ag Adran 15(7) y Mesur rhaid cyhoeddi'r wybodaeth hon cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'r amcanion yn ymwneud â hi. Fodd bynnag, gall awdurdodau gyhoeddi eu cynllun gwella cyn 1 Ebrill os dymunant wneud hynny.

## Adrodd ar Berfformiad yn y Gorffennol

- 6.4 Mae ail gam rhoi cyfrif am berfformiad yn codi pan fo awdurdod mewn sefyllfa i allu rhoi cyfrif am lwyddiant gweithgaredd gwella'r flwyddyn flaenorol<sup>8</sup>. Byddai hyn fel arfer ar ôl i'r wybodaeth alldro derfynol ar berfformiad ddod ar gael yn ail neu drydydd chwarter y flwyddyn adrodd. Mae hyn yn cynnwys data wedi ei archwilio o ddangosyddion perfformiad statudol, ond heb ei gyfyngu i hynny. Bryd hynny bydd awdurdod mewn sefyllfa i gasglu gwybodaeth adolygol am ei berfformiad yn ystod y flwyddyn flaenorol, a'i lledaenu i ystod eang o gynulleidfaoedd mewnol ac allanol.
- 6.5 Mae llawer iawn o hyblygrwydd yn y ffordd mae awdurdodau'n dewis adrodd am eu perfformiad, a dylai awdurdodau bob amser ystyried eu gwneud mor hawdd cael gafael arnynt ag y bo modd i ddinasyddion a rhanddeiliaid. Ond er mwyn cysondeb wrth adrodd ac atebolrwydd argymhellir bod awdurdodau'n adrodd am y canlynol:
- Tystiolaeth o'r prosesau y mae'r awdurdod wedi mynd trwyddynt i gyflawni ei ddyletswydd gyffredinol i wella, fel y mynegwyd yng nghynllun gwella'r flwyddyn flaenorol;
  - Asesiad cryno o farn yr awdurdod am ei lwyddiant yn cyflawni ei amcanion gwella, fel y nodwyd yng nghynllun gwella'r flwyddyn flaenorol;
  - Perfformiad fel y mae wedi ei fesur yn ôl pob dangosydd perfformiad statudol, pa un a yw'r rhain yn cyfeirio'n uniongyrchol at amcanion gwella neu beidio;
  - Manylion gwybodaeth arall am berfformiad a'i defnydd;
  - Asesiad o berfformiad o'i gymharu ag ef ei hun mewn blynyddoedd blaenorol achyrrff eraill tebyg (gan gynnwys awdurdodau eraill). Fodd bynnag dylai hyn fod yn fwy na dim ond asesiad diwerth o berfformiad tebyg yn erbyn dangosyddion perfformiad. Dylai hefyd gynnwys canlyniadau'r arolwg cymheiriaid, asesiadau craffu a ffynonellau gwybodaeth mwy ansoddol eraill gan gynnwys data meincnodi.
  - Manylion y dulliau y mae'r awdurdod wedi arfer ei bwerau cydlafurio yn ystod y flwyddyn adrodd gan gynnwys manylion yn nodi a yw gweithgaredd cydweithredol wedi cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd iddo.
  - Unrhyw ddatganiadau gweithgaredd y mae'r awdurdod wedi eu cyhoeddi o ganlyniad i unrhyw Adroddiadau Adran 19 a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r awdurdod hwnnw yn y flwyddyn adrodd honno.

---

<sup>8</sup> Gweler hefyd bennod 6 o'r Canllawiau ar Strategaethau Cymunedol a Chynllunio

## Cyhoeddi

- 6.6 Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn creu rheidrwydd ar awdurdodau i gyhoeddi eu hamcanion gwella, a'u cynlluniau ar gyfer eu cyflawni, ar ddechrau'r flwyddyn ariannol ac i'w gwybodaeth perfformiad ail gam gael ei chyhoeddi cyn 31 Hydref yn y flwyddyn ariannol ar ôl y flwyddyn y mae'r wybodaeth yn ymwneud â hi. A bod yn fanwl gywir, unig ystyr cyhoeddi rhywbeth yw gwneud rhywbeth yn gyhoeddus. Nid yw'r Mesur na'r canllawiau hyn yn mynnu bod awdurdodau'n cyhoeddi gwybodaeth mewn ffordd arbennig nac mewn fformat arbennig. Yr unig ddyletswydd yw cyhoeddi'r ystod gyflawn o wybodaeth fel sy'n ofynnol yn ôl adran 15 (2) a (6) o'r Mesur. Dylai awdurdodau gyhoeddi mewn ffordd sy'n gweddu orau i'r cynulleidfaoedd y mae'r wybodaeth ar ei chyfer, fyddai fel arfer yn cynnwys cyhoeddi copi caled ac electronig.
- 6.7 Mae anghenion gwahanol gynulleidfaoedd yn sicr o amrywio. Er enghraifft mae'n ddigon posibl y bydd dinasyddion yn ymddiddori'n bennaf mewn gwybodaeth sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'u hardaloedd neu'r gwasanaethau y maent yn eu derbyn yn bersonol. Ar y llaw arall mae'n debyg y bydd pwyllgorau craffu a sefydliadau partner am gael gwybodaeth fwy manwl neu dechnegol. Er bod awdurdodau'n rhydd i gyhoeddi gwybodaeth mewn un ddogfen os dymunant, bydd gwneud hynny'n golygu ceisio bodloni lluo o wahanol anghenion ar yr un pryd a'r perygl yw na fyddent yn cyflawni'r un ohonynt yn ddigonol.
- 6.8 Mae'n bosibl felly y bydd awdurdodau am ystyried cyhoeddi deunydd mewn gwahanol ffyrdd ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd. Dyma rai enghreifftiau o sut i wneud hynny:
- Cael prif ddogfen neu gyhoeddiad yn ymdrin â chyflawni amcanion gwella, manylion gwybodaeth am berfformiad a gasglwyd a'i defnydd, asesu perfformiad mewn termau hanesyddol a chymharu ag awdurdodau eraill, manylion cydlafurio a datganiadau a wnaed mewn ymateb i adroddiadau a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol, gyda gwybodaeth fwy manwl neu dechnegol (megis yr ystod lawn o ddata dangosyddion perfformiad) ar gael ar-lein;
  - Cyhoeddi neu ddangos y ffordd at wybodaeth o ddiddordeb arbennig i ddefnyddwyr gwasanaethau arbennig, neu grwpiau cymunedol arbennig;
  - Rhoi cyfrif ar wahân am berfformiad mewn gwahanol rannau o ardal awdurdod.
- 6.9 Er hynny, dylai cwmpas llawn yr wybodaeth sydd ar gael fod yn eglur ac ar gael yn rhwydd i bob cynulleidfa ym mhob achos.
- 6.10 Yn naturiol, dylai awdurdodau lynu wrth delerau eu cynlluniau iaith Gymraeg cymeradwy wrth gyhoeddi gwybodaeth am wella. Dylent gyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg oni bai fod eu cynllun iaith yn caniatáu cyhoeddi mewn un iaith yn unig.

## Ymgysylltu Ehangach â'r Cyhoedd

- 6.11 Bydd llawer o'r wybodaeth uchod yn fanwl, maith a thechnegol o reidrwydd. Er y bydd o ddiddordeb mawr i awdurdodau a'u partneriaid, go brin y bydd llawer yn y cymunedau y mae awdurdod yn eu gwasanaethau am ei darllen. Felly dylai awdurdodau gyhoeddi cynlluniau gwella a gwybodaeth am berfformiad mewn ffyrdd sy'n hwyluso ymgysylltu ehangach â'r rhai y mae'n eu gwasanaethu ac sy'n ysgogi deialog ar flaenoriaethau'r awdurdod a'r cynnydd y mae'n ei wneud tuag at eu bodloni. Fel arfer byddai hynny'n golygu fersiwn gryno o'r wybodaeth sy'n edrych tua'r dyfodol a'r wybodaeth adolygol.
- 6.12 Lle pob awdurdod fydd penderfynu ar gynnwys unrhyw grynodedb, ond dylai fod yn deg ac yn gytbwys, a dylai roi'r canlynol i ddarllenwyr cyffredinol:
- trosolwg o flaenoriaethau ac amcanion gwella'r awdurdod;
  - crynodeb yn nodi i ba raddau y cawsant eu bodloni yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac asesu a ydynt wedi gwella canlyniadau i ddinasyddion;
  - crynodeb o'r amcanion gwella a gafodd eu cynllunio neu eu cynnal yn y flwyddyn gyffredol;
  - manylion am sut i gael gwybodaeth bellach (er enghraifft copïau o'r cynllun llawn), sut i ddarparu unrhyw sylwadau ar berfformiad yr awdurdod, a sut i ddylanwadu ar gynllunio a chyflenwi gwasanaethau awdurdod yn fwy cyffredinol.
- 6.13 Dylai unrhyw crynodeb gael ei gyhoeddi mewn copi caled ac ar y Rhynggrwyd, yn Gymraeg a Saesneg, yn amodol ar delerau cynllun iaith Gymraeg pob awdurdod. Gall awdurdodau hefyd ystyried ei ddarparu mewn ieithoedd eraill, lle mae llawer yn siarad y rhain yn eu hardaloedd, ac mewn fformatau fel Braille, print bras a sain, sydd ar gael i'r rheini ag anabledd ar y synhwyrau. Atgoffir awdurdodau am eu dyletswyddau o dan Ran III o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 yn y maes hwn.
- 6.14 Dylai awdurdodau sicrhau bod y dinasyddion a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu yn ymwybodol o fodolaeth y cynllun a'r crynodeb, a bod digon o gyfle i gael copïau. Dylent hefyd fynd ati i geisio adborth a sylwadau ar y cynigion sydd ynddynt. Gallai awdurdodau ystyried cymryd y camau hyn:
- cyhoeddi gwybodaeth mewn papur newydd lleol, neu gylchlythyr a ddarperir gan yr awdurdod (os oes un);
  - rhoi copïau mewn llyfrgelloedd lleol a sicrhau bod staff llyfrgelloedd yn gallu cynghori dinasyddion ynghylch sut i gael gwybodaeth fwy manwl am berfformiad eu hawdurdod;
  - trefnu bod copïau ar gael yn swyddfeydd yr awdurdod;
  - anfon copïau i gynghorau tref a chymuned, sefydliadau partner a grwpiau cymunedol.

## Hyblygrwydd

6.15 Cyfathrebu effeithiol ac atebolrwydd yw hanfod y bennod hon, nid rhagnodi dulliau arbennig o wneud hynny. Mae pob awdurdod yn y sefyllfa orau i farnu sut yn union i gyfathrebu a rhoi cyfrif am ei berfformiad a'i fwriadau, ac mae'r canllawiau hyn yn fwriadol yn gadael nifer o ddewisiadau a dulliau posib o weithredu yn agored. Er enghraifft, mae croeso i awdurdodau, os ydynt yn dymuno:

- gyhoeddi cynlluniau gwella sy'n ymestyn dros gyfnod hirach nag un flwyddyn, ar yr amod eu bod yn cael eu diweddarau'n flynyddol;
- cyhoeddi ar unrhyw adeg cyn y terfyn amser statudol a roddir uchod; yr unig brawf fydd bod yr wybodaeth a gyhoeddir yn ddibynadwy;
- defnyddio unrhyw deitl neu frand, ar yr amod bod y testun yn egluro ei fod yn cyflawni'r ddyletswydd statudol berthnasol;
- rhoi'r cynnwys mewn unrhyw ddogfen arall, megis cynllun corfforaethol yr awdurdod, neu ei gyfuno â chynllun o'r fath;
- cynnwys crynodeb cyhoeddus mewn unrhyw gyhoeddiad arall, megis cylchlythyr a gyhoeddir gan awdurdod.



# Pennod 7

## Asesu, Rheoleiddio ac Arolygu

- 7.1 Mae'r bennod hon yn rhoi disgrifiad cyffredinol o waith Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) a'r rheoleiddwyr perthnasol (gweler paragraff 7.3) mewn cysylltiad â Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. Gan nad oes gan Weinidogion Cymru na SAC unrhyw bŵer i gyhoeddi canllawiau ar y materion hyn, nid oes unrhyw rym statudol i'r bennod hon. Rydym wedi ei chynnwys yn unig er mwyn disgrifio gwaith SAC a'r rheoleiddwyr perthnasol mewn cyd-destun ehangach. Mae wedi ei seilio ar eu cynigion ac yn defnyddio termau (er enghraifft, teitlau asesiadau) nad ydynt yn cael eu defnyddio yn y Mesur, ond y bwriada SAC eu defnyddio pan fydd yn cynnal ei harolygiadau o dan y Mesur. Ond rydym wedi pennu'r darpariaethau yn y Mesur y maent yn cyfeirio atynt.
- 7.2 Ystyr y term "Swyddfa Archwilio Cymru" (SAC) yw'r Archwilydd Cyffredinol a'i staff. Swyddogaethau i'r Archwilydd Cyffredinol yn unig yw'r swyddogaethau cyfreithiol sy'n sail i waith SAC, ond yma byddwn yn cyfeirio at SAC, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall. Ystyr y term "rheoleiddwyr perthnasol" yw Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn), Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), y Cynghorydd Tân ac Achub â statws Arolygydd ei Mawrhydi, Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac archwilwyr a benodir gan yr Archwilydd Cyffredinol. Defnyddir y term yma mewn cysylltiad â'u "swyddogaethau perthnasol" yn unig, a nodir yn adran 16 y Mesur.
- 7.3 Mae SAC a'r rheoleiddwyr perthnasol yn gweithio er budd aelodau'r cyhoedd wrth adrodd ar wasanaethau i roi sicrwydd a gwella atebolrwydd, hyrwyddo gwella, a llywio polisiâu'r llywodraeth er mwyn helpu i ddatblygu gwell gwasanaethau. Mae eu gwaith hefyd yn helpu i sicrhau tryloywder sy'n arwain at well penderfyniadau a gwell canlyniadau.
- 7.4 Y rhai sy'n darparu gwasanaethau sy'n bennaf gyfrifol amdanynt, gan weithio o fewn polisiâu a fframweithiau perfformiad a osodir gan y llywodraeth. Oherwydd hynny, er ei bod yn darparu sicrwydd annibynnol a chymorth i wella, y mae Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella yn cymryd cyfrif o'r ffaith mai darparwyr gwasanaeth sy'n bennaf gyfrifol am asesu'r gwasanaethau a ddarperir. Wrth ymgymryd â'u gwaith, bydd SAC a rheoleiddwyr perthnasol eraill, heb niweidio eu swyddogaethau statudol, yn cael eu llywio gan yr egwyddorion a nodir yn Natganiad Polisi Arolygu, Archwilio a Rheoleiddio yng Nghymru Llywodraeth y Cynulliad<sup>9</sup>.

<sup>9</sup> Datganiad Polisi Arolygu, Archwilio a Rheoleiddio yng Nghymru a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2009 ac sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru.

## Amlinelliad o waith Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol

- 7.5 Prif waith SAC a'r rheoleiddwyr perthnasol o dan y Rhaglen yw **Asesiad Gwella** blynyddol (a gaiff ei gynnal o dan adran 18 y Mesur) i bob awdurdod benderfynu a yw'r awdurdod yn debygol o gydymffurfio â gofynion Rhan 1 y Mesur. Bydd SAC hefyd yn cynnal **archwiliad gwybodaeth am welliannau a chynllunio ar gyfer gwella**, fel sy'n ofynnol o dan adran 17 y Mesur, er mwyn nodi a yw'r awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswydd o dan adran 15(1) i (7).
- 7.6 Er mwyn cyflawni'r gofynion hyn bydd SAC yn ymgymryd â'r canlynol:
- Asesu Corfforaethol** - asesu sy'n edrych tua'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus;
- Asesu Perfformiad** - asesu adolygol i ganfod a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn datblygu barn am gefndir yr awdurdod o ran gwella.
- 7.7 Mewn rhai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal **Arolygiadau Arbennig** (o dan adran 21), lle bydd yn rhoi adroddiad arnynt i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol, ac y bydd ganddo'r hawl i'w cyhoeddi (o dan adran 22).
- 7.8 Un gweithgaredd atodol pwysig i SAC yw cydgysylltu'r gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyfan pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella.
- 7.9 Disgrifir yr eitemau gwaith hyn yn fwy manwl isod. Yn ogystal â hyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol baratoi a chyhoeddi datganiad o arfer. Nid yw'r Bennod hon yn disodli nac yn ffurfio rhan o'r datganiad hwn. Mae'r datganiad o arfer yn disgrifio sut mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu arfer swyddogaethau allweddol cysylltiedig â'r Mesur yn unol â'r egwyddorion canlynol:
- bod ei swyddogaethau'n cael eu harfer yn gyson rhwng awdurdodau;
  - y dylai archwilwyr a benodir gyflawni eu swyddogaethau'n annibynnol;
  - bod swyddogaethau'n cael eu harfer yn gymesur ac nad ydynt yn rhoi baich afresymol ar awdurdodau gwella Cymru;
  - bod swyddogaethau'n cael eu harfer gyda golwg ar helpu awdurdodau gwella i gydymffurfio â Rhan 1 y Mesur.

Mae'r datganiad hwn yn amlinellu sut y bydd SAC yn gweithio gyda'r rheoleiddwyr perthnasol, yn unol â'r egwyddorion hyn, i sicrhau cynllunio gweithgareddau a chydweithredu effeithiol ac ymarfer swyddogaethau'n gymesur.

- 7.10 Dylid cofio bod gan yr Archwilydd Cyffredinol a'r rheoleiddwyr perthnasol swyddogaethau o dan ddeddfwriaeth arall y tu allan i'r Mesur hefyd. Yn benodol, mae dyletswyddau a phwerau gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i gynnal astudiaethau o awdurdodau, megis astudiaethau i wella darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddarparu gwasanaethau. Yn yr un modd, mae gan yr archwilydd a benodir gan yr Archwilydd Cyffredinol ddyletswyddau i fynd ati i archwilio cyfrifon awdurdodau.
- 7.11 Mae gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru swyddogaethau statudol i annog gwelliannau mewn gofal cymdeithasol, gwasanaethau cymdeithasol a blynyddoedd cynnar drwy reoleiddio, arolygu ac adolygu. O ran gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol nodir ei swyddogaethau yn Neddf Lechyd a Gofal Cymdeithasol (lechyd Cymunedol a Safonau) 2003.
- 7.12 Mae Estyn yn cynnal ei arolygiadau o awdurdodau addysg lleol o dan Adran 38 o Ddeddf Addysg 1997 sy'n darparu bod gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru hawl ac, os gofynnir iddo wneud hynny gan yr Ysgrifennydd Gwladol, y bydd yn trefnu i unrhyw awdurdod lleol gael ei arolygu. Bydd gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru hawl, o dan adran 41 o Ddeddf Addysg 1997, fel y mae wedi ei diwygio gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, i ofyn i SAC helpu gydag unrhyw arolygiad.
- 7.13 Er bod y swyddogaethau hyn yn annibynnol ar y Mesur, mae cyfrifoldeb ar SAC o dan y mesur i weithio gyda'r rheoleiddwyr perthnasol i gydgylltu gweithgaredd penodol ac i'w ddefnyddio i hysbysu gwaith o dan y Mesur ac i'r gwrthwyneb.

## Asesu Gwella

- 7.14 Bydd Asesu Gwella (adran 18) yn cynnwys Asesu Corfforaethol sy'n edrych tua'r dyfodol, ac Asesu Perfformiad adolygol er mwyn llunio barn am gefndir yr awdurdod o ran gwella. Caiff y ddau asesiad eu hysbysu gan yr archwiliad gwybodaeth am welliannau a chynllunio ar gyfer gwella (adran 17). Er bod adran 17 ac adran 18 fel ei gilydd yn cynrychioli swyddogaethau cyfreithiol ar wahân, ac yn cael eu disgrifio felly yma, mae cysylltiad rhyngddynt a chânt eu defnyddio gyda'i gilydd i lywio asesiad SAC o bob awdurdod.
- 7.15 Cynhelir yr archwiliad adran 17 o wybodaeth am welliannau a chynllunio mewn dwy ran i gydredeg â'r awdurdod yn cyhoeddi ei gynllun gwella (adran 15(6)) a'i asesu perfformiad adolygol (adran 15(2)).
- 7.16 Bydd SAC yn gwneud gwaith trwy gydol y flwyddyn i lywio'r asesu corfforaethol a pherfformiad ac yn bwydo'r canfyddiadau yn ôl i'r awdurdod. Bydd yn cynnal adolygiadau drwy'r awdurdod cyfan o drefniadau llywodraethu a rheoli perthnasol, yn ogystal ag adolygiadau o swyddogaethau a gweithgareddau penodol lle bo angen. Lle bo hynny'n briodol, bydd yr asesiad yn cynnwys casglu ac adolygu gwybodaeth gan aelodau'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill, yn ogystal â gwybodaeth o'r tu mewn i'r awdurdod. Caiff ei hysbysu hefyd gan y gwaith a rennir gan y rheoleiddwyr perthnasol; yn cynnwys gwaith archwilio a wneir mewn

cysylltiad â chyfrifon yr awdurdod. Mae'r Mesur yn darparu mecanwaith rhannu gwybodaeth penodol (adran 33) ar gyfer y diben hwn, ac felly mae'n ofynnol i bob rheoleiddiwr perthnasol ddod â'u gwybodaeth ynghyd i'w chyfrannu at Asesiad Gwella ac Adroddiad Gwella Blynyddol yr Archwilydd Cyffredinol.

## Asesu Corfforaethol sy'n edrych tua'r Dyfodol

- 7.17 Ar gyfer pob blwyddyn ariannol bydd SAC yn asesu pob awdurdod o ran a yw'n debygol o gydymffurfio â gofynion y mesur. Bydd SAC yn ystyried, ymhlith pethau eraill, y cynllun gwella mae'r awdurdod wedi'i gyhoeddi (adran 15(6)) a fydd yn cynnwys ei amcanion gwella a chynlluniau i'w bodloni yn ogystal â'r ddyletswydd gyffredinol i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Bydd SAC yn ystyried hanes yr awdurdod o ran gwella ac a yw ei drefniadau llywodraethu a rheoli'n cefnogi gwella yn effeithiol. Bydd SAC yn manteisio ar waith y rheoleiddwyr perthnasol eraill yn yr asesiad.
- 7.18 Rhan gyntaf yr archwiliad adran 17 fydd archwiliad SAC o sut mae'r awdurdod yn cyflawni ei ddyletswydd o dan adran 15(6)-(7), cyhoeddi cynllun gwella. Bydd hyn yn digwydd yn ystod rhan gynharaf y flwyddyn ariannol ac yn hysbysu'r asesu corfforaethol.
- 7.19 Ar gyfer pob blwyddyn ariannol, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cyhoeddi Adroddiad Asesu Corfforaethol (adran 19) ar gyfer pob awdurdod. Bydd union amseriad yr adroddiad yn dibynnu ar ba bryd y bydd yr awdurdod yn cwblhau ac yn cyhoeddi ei gynllun gwella (adran 15(6)). Mae'n ofynnol i awdurdodau gyhoeddi eu cynlluniau 'cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol'. Mae'n debyg y cyhoeddir adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol rhwng mis Ebrill a mis Mehefin ac y bydd yn datgan a yw'n credu bod yr awdurdod yn debygol o gydymffurfio â'r ddyletswydd statudol i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. Mae'n debyg y gwnaiff sylw hefyd ynghylch a yw'r awdurdod yn debygol o gydymffurfio mewn blynyddoedd dilynol.

## Asesu Perfformiad Adolygol

- 7.20 Ar gyfer pob blwyddyn ariannol, bydd SAC yn cynnal Asesu Perfformiad yn bennaf er mwyn olrhain gwelliant dros amser. Wrth fynd ati i asesu bydd SAC yn ystyried, ymhlith pethau eraill; yr asesu perfformiad mae'r awdurdod ei hun wedi ei gyhoeddi (adran 15(2)), fel rhan o'r archwiliad adran 17, a chanfyddiadau unrhyw waith y mae SAC wedi ei wneud a rheoleiddwyr perthnasol eraill i asesu perfformiad. Fel yn achos asesu corfforaethol sy'n edrych tua'r dyfodol, bydd y gwaith hwn yn cynnwys casglu ac adolygu gwybodaeth gan aelodau'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill. Ac, unwaith eto, caiff ei hysbysu gan waith a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33 y mesur) yn cynnwys gwaith archwilio a wneir mewn perthynas â chyfrifon yr awdurdod.

7.21 Bydd ail ran yr archwiliad adran 17 yn archwilio sut mae'r awdurdod yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15 (1) i (5), asesu perfformiad yr awdurdod. Bydd yn hysbysu asesiad perfformiad SAC a fydd yn adolygu:

- lefel cyffredinol y gwelliant a gyflawnwyd;
- y cynnydd a wnaed ar gyflawni amcanion gwella;
- cynnwys dangosyddion perfformiad (lleol a chenedlaethol);
- cyflawni'r safonau perfformiad a ddynodwyd gan Lywodraeth y Cynulliad a'r rhai y mae'r awdurdod ei hun wedi eu gosod;
- perfformiad dros amser ac yn erbyn awdurdodau eraill;
- gweithgarwch cydweithredol;
- trefniadau ar gyfer casglu a defnyddio data, ac i ba raddau y mae gwybodaeth am berfformiad yn ddigonol ar y cyfan.

7.22 Adroddir ar yr asesu perfformiad yng Nghynllun Gwella Blynyddol yr Archwilydd Cyffredinol (gweler 7.26).

## Arolygiadau arbennig

7.23 Os yw'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn y gallai awdurdod fethu cydymffurfio â gofynion y Mesur, neu os yw rheoleiddiwr perthnasol yn hysbysu'r Archwilydd Cyffredinol ei fod o'r farn honno, yna mae'n bosibl y bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnal arolygiad arbennig o'r awdurdod. Mae arolygiadau felly'n gallu ymwneud â rhai neu holl swyddogaethau awdurdod. Cyn penderfynu a yw am gynnal arolygiad, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ymgynghori â Gweinidogion Cymru. A lle bo'r Archwilydd Cyffredinol wedi datgan mewn adroddiad asesu ei fod yn bwriadu arolygu, rhaid iddo ystyried unrhyw ymateb a wneir gan yr awdurdod.

7.24 Lle bo'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal arolygiad arbennig, bydd yn cyhoeddi adroddiad i'r awdurdod a Gweinidogion Cymru. Bydd hwn yn amlinellu unrhyw faterion lle mae'r awdurdod yn methu, neu lle gallai fethu cydymffurfio â'r Mesur. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd argymhell y dylai Gweinidogion Cymru roi cymorth i'r awdurdod neu roi cyfarwyddiadau iddo.

7.25 Bydd hawl gan y rheoleiddwyr perthnasol i gymryd camau eu hunain hefyd, y tu allan i'r swyddogaeth arolygu arbennig, wedi'u cydgysylltu â SAC a rheoleiddwyr perthnasol eraill fel y bo'n briodol.

## Adroddiadau gwella blynyddol a gyhoeddir

7.26 Erbyn 30 Tachwedd bob blwyddyn, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cyhoeddi adroddiad gwella blynyddol ar bob awdurdod sy'n:

- crynhoi'r adroddiad asesu corfforaethol;
- adrodd ar waith asesu perfformiad SAC;
- crynhoi neu'n atgynhyrchu unrhyw adroddiadau arolygu arbennig allai fod wedi cael eu gwneud;
- crynhoi neu'n atgynhyrchu unrhyw adroddiadau a gafodd eu cynnal gan reoleiddwyr perthnasol.

7.27 Bydd yr adroddiadau gwella blynyddol ar gael ar y rhyngwrwyd ac wedi eu hysgrifennu mewn arddull fydd yn eu gwneud yn ddealladwy ac yn ystyrion i'r cyhoedd.

## Cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio

7.28 Bydd disgwyl i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi amserlen ar gyfer pob awdurdod yn nodi'r dyddiadau a'r amseroedd pryd y dylai SAC a'r rheoleiddwyr perthnasol wneud eu gwaith mewn cysylltiad â'r Awdurdod. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ymgynghori â'r rheoleiddwyr perthnasol cyn gosod yr amserlen. Wrth gynhyrchu'r amserlen, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn dilyn egwyddorion ei Ddatganiad Ymarfer. Er enghraifft, bydd yn gweithio gyda'r rheoleiddwyr perthnasol i sicrhau bod y swyddogaethau perthnasol yn cael eu cydgysylltu fel eu bod yn cael eu harfer yn gymesur, o'u cymryd gyda'i gilydd.

7.29 Bydd peth o'r gweithgarwch rheoleiddio ac arolygu'n deillio'n uniongyrchol o asesu gwella ac archwiliadau SAC. Yn yr un modd bydd rhywfaint o'r gweithgarwch yn deillio o weithgarwch arolygu a rheoleiddio y rheoleiddwyr perthnasol eraill.

7.30 Bydd yr amserlen reoleiddio'n ystyried pob gweithgaredd rheoleiddio ac arolygu, ac yn ceisio sefydlu rhaglen weithgaredd sy'n bodloni anghenion yr awdurdod, SAC a rheoleiddwyr perthnasol eraill er mwyn rhoi sicrwydd i'r cyhoedd a sbarduno gwelliannau mewn gwasanaeth. Y bwriad yw dyfeisio rhaglen gydlynol ac effeithlon o weithgareddau sy'n cyflawni gofynion swyddogaethau SAC a rheoleiddwyr perthnasol. Unwaith y mae'r amserlen wedi ei gosod, rhaid i SAC a'r rheoleiddwyr perthnasol gymryd pob cam rhesymol i gadw ati. Yn amlwg mae o fudd i awdurdodau fod SAC a'r rheoleiddwyr perthnasol yn gallu cadw at yr amserlen hon. Felly mae'n bwysig bod awdurdodau'n darparu unrhyw gymorth y gofynnir amdano er mwyn helpu'r broses hon.